



Y DINESYDD

Tachwedd 2020

Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

Rhif 453

*Gorchudd gaeafol dros y Dolydd Gogleddol
(tud. 4)*



Llun: Chris Marshall

- **Nadolig gyda Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg**
- **Ymdopi â Covid-19 ym Mrwsel**
- **S4C yn lansio 3 sianel YouTube i bobl ifanc**



*Tymor y bochau cochion!
(tud. 23)*

Y DINESYDD

Golygydd:
Alun Treharne

Golygydd Rhagfyr
Clive Rowlands

Cyfraniadau erbyn 27 Tachwedd i
clive43@icloud.com
5 Clos y Wern, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6NL
029 2241 7045 / 07866 667313

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

www.dinesydd.cymru
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd



Ariennir yn rhannol
gan
Llywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd



Pennaeth Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn Ymddeol

Ddiwedd y tymor yma bydd Hywel Price yn ymddeol o'i swydd fel Pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Morgannwg. Rydym yn falch o gyhoeddi'r gair hwn o werthfawrogiad gan Gadeirydd y Bwrdd Llywodraethol, Mr Robert Evans, QPM, gan ychwanegu diolch a dymuniadau gorau'r Dinesydd ar ran ein darllenwyr.

Braidd yn betrusgar roeddwn i a'm cyd-lywodraethwyr yn ystod haf 2015 wrth i ni ymgymryd â'r dasg o benodi rhywun i gymryd lle Pennaeth cyntaf YGBM, Dr Dylan Jones; wedi'r cyfan, doedden ni ddim wedi gwneud hyn ers rhyw bymtheng mlynedd! Fe wyddem, serch hynny, fod gyda ni ymgeisydd perffaith yn Mr Hywel Price – nid yn unig yn rhinwedd ei CV arbennig o drawiadol ond hefyd ei ddawn i gyfathrebu â disgyblion, o 3 i 19 oed - drwy gydol y broses. (Cofiaf yn dda ei weld yn eistedd gyda phlant 3 oed a'r rheiny'n dwlu arno.) Doedd e ddim yn ddrwg gydag oedolion chwaith!

Daeth Hywel atom gyda gweledigaeth glir ynglŷn â sut i gynnal safonau uchel yr ysgol ond hefyd sut i'w symud ymlaen o dan ei ofalaeth ef. Mae e'n berson hawddgar, bob amser â gwên ar ei wyneb, ac yn hynod boblogaidd gyda'r disgyblion a'r staff; a chydag ychydig dwtio fan hyn a fan draw ar y strwythur, ynghyd â'i egni di-ball, erbyn diwedd ei dymor yn y swydd, fe lwyddodd i gael y canlyniadau TGAU a Safon Uwch gorau erioed yn hanes yr ysgol.

Cydnabyddwyd llwyddiant ac arweiniad cryf Hywel yn adroddiad Estyn yn 2019:

'Mae'r ysgol yn gymuned hynod gynhwysol, ofalgar a Chymreig. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn wych, yn dangos agweddau rhagorol at eu gwaith ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod. Mae'r gofal ac arweiniad arbennig y mae'r ysgol yn eu darparu yn cydfynd yn llwyr ag arwyddair yr ysgol, sef "Dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd."

Yn wyneb ambell her ddigon anodd, dangosodd Hywel wytnwch personol a gafael gref ar faterion bob-dydd yr ysgol. Cofiaf yn dda y tro hwnnw pan gefais alwad ffôn ganddo yn dweud, 'Mae'r *Bomb Squad* ar y safle ... 'mbach o drafferth yn y labordy cemeg ... dim byd i fecso amdano!' Sgwrs braidd yn anarferol rhwng Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr, faswn i'n tybio!

Mae llwyddiannau Hywel yn ormod i'w rhestru yma, yn amrywio o wneud trefniadau i ddelio â phla'r Cofid, i arwain codi estyniad sylweddol i adeilad yr ysgol. Ei waddol mwyaf, serch hynny, yw'r holl ddisgyblion hynny sydd wedi gadael YGBM gyda'r sylfaen orau posibl y gallai'r ysgol fod wedi ei rhoi iddynt. Mae ei ymddeoliad yn llwyr haeddiannol a gall yn awr edrych ymlaen at dreulio mwy o amser gyda'i wraig, Mairwen, a'r merched, Megan a Gwennan.

Dymunwn y gorau i'r teulu oll ar gyfer y dyfodol, ac ymddeoliad hir a hapus i chi Hywel.

Colofn G.R.

“Mae'r ddau fudiad pwysicaf yn y frwydr i sicrhau dyfodol yr iaith yn dathlu cerrig milltir arbennig yn eu hanes cyn bo hir.”



Mae eleni yn brysur dod i ben ac mae hi wedi bod yn flwyddyn ryfeddol am sawl rheswm. Bydd hi'n Nadolig chwep ac yn sicr bydd hi'n Nadolig gwahanol i'r arfer o ganlyniad i effaith y firws ar ein bywydau. Ond y gobaith ydy y daw'r Nadolig â hapusrwydd i lawer er gwaethaf popeth.

Mae'r ddau fudiad pwysicaf yn y frwydr i sicrhau dyfodol yr iaith yn dathlu cerrig milltir arbennig yn eu hanes cyn bo hir. Bydd Mudiad Meithrin yn dathlu ei hanner cant y flwyddyn nesa a'r Urdd yn dathlu ei chanmlwyddiant y flwyddyn ganlynol. Mae miloedd o blant a phobl ifanc Cymru wedi elwa o wasanaeth clodwiw y ddau fudiad i ffyniant yr iaith a hir y parhau eu hymdrechion er gwaethaf pob anhawster.

Yn ddiweddar collwyd dau o garedigion yr iaith, sef John Walter Jones yn 74 oed a fu'n Brif Weithredwr cyntaf Bwrdd yr Iaith ac wedi hynny yn Gadeirydd S4C, a Sally Hughes, 95 oed, odd yn byw yng Nghasnewydd. Daeth John Walter i Gaerdydd o'r gogledd i astudio yn y ddinas cyn ymuno â'r Gwasanaeth Sifil. Byddai Sally Hughes, Cymraes i'r carn, yn darllen *Y Dinesydd* yn gyson. Nôl yn 1959, pan odd hi a'i theulu yn byw yn Rhiwbeina, sefydlwyd Cylch Meithrin Cymraeg yn y pentre a hi a Bethan Roberts oedd arweinyddion gwirfoddol cyntaf y cylch. Mae'r cylch yn 61 oed eleni ac yn dal i ffynnu. Dr John Hughes, gŵr Sally, odd Cadeirydd Pwyllgor Gwaith y ddwy Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yng Nghasnewydd. Cydymdeimlwn â'r ddau deulu yn eu colled fawr.

Hanner can mlynedd i eleni bu farw'r nofelydd a'r dramodydd Jack Jones a fu'n byw ym Mhentre'r Gerddi yn Rhiwbeina yn ystod ei flynyddoedd olaf. Brodor o Ferthyr Tudful odd o ac yn siarad y Wenhwysseg. Yn

aml byddai pobl odd yn pasio ei gartre yn ei weld wrth ei deipiadur yn ffenest ei dŷ. Roedd yn hoff o seiadu hefo rhai o'i gyfeillion agos yn nhafarn y *Butchers Arms* yn y pentre. Ymhlith ei nofelau odd *Off to Philadelphia in the Morning* a *River Out of Eden*.

Yn ddiweddar mae cnwd o hunangofiannau wedi ymddangos ac yn eu plith mae hunangofiant Huw Jones, *Dwi isio bod yn ...* Cafodd Huw ei fagu yn ardal Llanrhyddni o'r ddinas a mynychodd Ysgol Bryntaf ac Ysgol Uwchradd y Bechgyn cyn mynd i astudio Ffrangeg yng Ngholeg Iesu, Rhydychen. Ei athro Ffrangeg yn yr ysgol uwchradd odd Wynford Davies, odd yn byw yn Rhiwbeina, a'i fab yntau, Andrew Davies, sy wedi bod yn addasu'r clasuron Saesneg ar gyfer y teledu. Yn ei ieuenctid bu Huw yn aelod o Aelwyd yr Urdd yn y ddinas ac yn ganwr pop a lwyddodd i ysbrydoli ieuenctid y wlad yn ystod yr ymgyrchoedd iaith. Cyfrannodd yn helaeth i ddatblygu teledu Cymraeg gan iddo sefydlu dau gwmni teledu, sef Barcud a Theledu'r Tir Glas. Bu'n Brif Weithredwr S4C am ugain mlynedd cyn ei alw'n ôl i fod yn Gadeirydd y sianel yn 2011.

O'r diwedd mae Gareth Bale, ein seren bêl-droed, gynt o'r Eglwys Newydd, wedi llwyddo i adael Real Madrid lle cafodd ei drin yn warthus gan gefnogwyr y clwb hwnnw a'i hyfforddwr. Bellach bydd yn chwarae i'w hen glwb, Tottenham Hotspur, a Chymru wrth gwrs. Eisoedd mae cefnogwyr Tottenham yn falch o'i weld yn ôl yn eu plith ac yn sicr mae cefnogwyr Cymru yn hapus dros ben; felly 'croeso'n ôl Gareth a phob llwyddiant yn dy glwb a'th wlad yn y dyfodol'.

Cadwch yn ddiogel, gan obeithio eich bod i gyd yn mwynhau cynnwys *Y Dinesydd* o fis i fis, ac i chi ddarllenwyr y tu hwnt i Gaerdydd a'r Fro sy'n darllen y papur dros y we – croeso cynnes i'n plith!

Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd* mis Rhagfyr (gweler nodyn ar dud. 5)

CABAN, Pontcanna
CANT A MIL VINTAGE, 100 Whitchurch Rd.
CHAPTER, Treganna
DERI STORES, Rhiwbeina
DINAS COMPUTERS, Heol y Crwys
GRIFFIN BOOKS, Penarth
NISA, Heol Caerdydd,, Dinas Powys
PAPERWEIGHT, 22 Wellfield Road
SIOP FACH CAERDYDD, 37 Arcêd y Castell
SIOP Y FELIN, Yr Eglwys Newydd
VICTORIA FEARN GALLERY, Rhiwbeina

Croeso anwylaf
Manon a Rhys ab Owen i
Esther Sian
Ganed y 3ydd o Hydref 2020

Cyn dyfod y gaeaf
Fe ddaethost i'n byd,
Yn Haf Bach Mihangel,
Fel yr aur yn yr ŷd.
Mae'r dyddiau'n byrhau,
Ond fe fyddi di
Yn gannwyll yn olau
Am byth i ni. xxx
Robin Gwyndaf

Colofn Natur

Rhannu profiadau'r Dolydd Gogleddol

Gethin Jenkins-Jones



Wrth gerdded neu yrru ar hyd strydoedd gogledd Caerdydd ar hyn o bryd, byddwch yn debyg o weld placardiau yn dweud 'Save the Northern Meadows / Achub y Dolydd Gogleddol' yn sefyll yng ngerddi rhai o'r bobl leol. Y safle dan sylw yw ardal o laswelltiroedd cudd ger Coryton - lle o tua 23 erw o faint. Er y bu bygythiad datblygiad yno ers ugain mlynedd, mae dinistr y cynefin yn edrych yn gynyddol anochel yn y dyfodol agos, yn bennaf er mwyn estyn cyfleusterau Ysbyty Felindre. Yn naturiol, mae'r posibilrwydd o gollu rhai o laswelltiroedd olaf Caerdydd wedi bod yn fater dadleuol i nifer o bobl y ddinas, ac mae ymgyrch i warchod y lle wedi ei hegnio gan aelodau o'r gymuned sy'n hoff o'r ardal fel lle i fwynhau'r natur sydd yno. Mae wedi bod yn braf gweld cynifer o bobl angerddol yn protestio er mwyn diogelu'r lle, a'r gobaith yw y bydd modd adeiladu'r ysbyty hollbwysig hwn ar leoliad arall. Mae'r safle drws nesaf i fy hoff gyrchafan, Fferm y Fforest (gweler erthygl mis Medi), a dw i'n gyfarwydd iawn â'r caeau yma a hoffwn rannu â chi'r profiadau dw i wedi eu cael yno dros y degawd diwethaf.



Llun: Chris Marshall

Mae'r Dolydd Gogleddol heddi yn gymysgedd o laswelltiroedd hir, llwyni a choed ifanc. Un o fy hoff bethau am y lle yw, wrth gerdded trwyddynt, mae fel petaech yn cerdded yng nghanol cefn gwlad. Nid oes llawer o isadeiledd dynol yn y golwg gan fod yr ardal wedi'i hamgylchynu gan goed hŷn ar dair ochr. Er bod modd mwynhau'r lle ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, yr haf yw'r cyfnod pryd mae'r lle ar ei harddaf. Mae'r glaswellt yn dod yn fyw efo synnau'r pry sydd yn eu mysg, yn enwedig y sioncod y gwair, gwenyn a phryfed hofran. Yn y mieri bydd siawns gweld neu glywed alaw egniol y telor penddu neu sŵn crafog llwydfronnau - dau delor a fydd wedi mudo yno o dde Ewrop neu Affrica. Dw i hefyd wedi gweld dros bymtheg rhywogaeth o bili-palod yno dros y blynnyddoedd, yn cynnwys rhai o rywogaethau mwyaf hardd y wlad fel yr iâr fach lygadog (*peacock*), y fantell goch (*red admiral*) a'r copor bach.

Mae'r safle yn lle da i fynd am dro gyda ffrindiau, teulu a chŵn, yn enwedig yn ystod cyfnodau braf a

sych. Oherwydd bod cyfyngiadau ar gymdeithasu dan do yn parhau, mae'r Dolydd Gogleddol wedi bod yn fan bendigedig i mi i gwrdd â fy ffrindiau ar sawl achlysur ers i mi ddod nôl o'r brifysgol. Mae'r lle yn boblogaidd iawn yn yr haf hwyr pan mae'r mieri yn ffrwydro efo mwyar duon. Mae gen i sawl atgof o fynd yno ar ddiwrnodau poeth mis Awst efo fy chwaer i hel digon ohynyt i greu crymbl neu ddau, gan ddychwelyd adref â dwylo wedi'u staenio'n biws ac ambell grafiad ar fy mreichiau.

Mae'r coed ar ben gogleddol y caeau hefyd yn ardal i'w mwynhau, ac yn lle a fydd yn cael ei effeithio gan y datblygiad arfaethedig. Maent yn ffinio â hen Reilffordd Caerdydd, sydd bellach nawr yn llwybr cerdded. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn goed colldail, ac mae gwyrddni'r lle yn enwedig o brydferth yn ystod y gwanwyn, fel y mae lliwiau cymysg hyfryd y dail yn yr hydref. Mae modd clywed sawl aderyn wrth gerdded ar hyd y llwybr, fel y ji-binc, delor y coed a brych y coed, ac yn yr haf gallwch weld nifer o ditwod ifanc a fydd wedi'u magu yn y blychau nythu sydd wedi'u codi yno. Tua hanner ffordd ar hyd y llwybr gallwch hefyd weld - a chlywed crawcian anhygoel - nythfa crychydion fwyaf Morgannwg yn uchel ym mrigau'r coed pinwydd yn ystod y tymor nythu. Mae'r adar yn dychwelyd i'r nythfa ym mis Chwefror, ac mae'n deimlad cynnes i'w gweld am y tro cyntaf bob blwyddyn, gan fod yn arwydd bod y gwanwyn rownd y gornel.

Mae'n bwysig gwerthfawrogi'r llefydd sy'n rhoi pleserau bychan i ni wrth gerdded yn yr awyr agored. Er mai ond caeau ydynt ar yr wyneb, mae gen i - a miloedd eraill yn yr ardal leol - deimlad o gysylltiad efo'r Dolydd Gogleddol. Byddai eu dinistr nid yn unig yn ergyd enfawr i fywyd gwyllt yr ardal, byddai hefyd yn rhoi terfyn ar allu miloedd o bobl leol i fwynhau byd natur ar stepen eu drws.



Llun: Chris Marshall



Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2021

Mae dyddiad cau cystadlaethau gwaith cartref Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2021 yn prysur agosáu. Y dyddiad cau ar gyfer cystadlu yw **27 Tachwedd 2020**. Mae rhestr testunau Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2021 yn fyw ar y wefan eisteddfodcaerdydd.cymru. Mae'r rheolau a'r amodau hefyd ar y wefan. Eleni mae gyda ni gystadlaethau

barddoniaeth, rhyddiaith a ffotograffiaeth i bob categori oedran – ewch ati i greu!

Fel y soniwyd fis diwethaf, rydym am nodi dyddiad eisteddfod 2021 â rhywbeth eisteddfodol. Felly ein cais ni i chi yw i anfon eich lluniau a'ch fideos o Eisteddfod Caerdydd 2020 atom i ni greu cyflwyniad arbennig i'w ddangos ar y cyfryngau cymdeithasol ar 23 Ionawr 2021. Felly os oes gyda chi luniau da, neu fideos yr hoffech chi i ni eu cynnwys, yna anfonwch nhw at cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru. Byddwn yn cymryd eich bod yn hapus i ni ddefnyddio unrhyw luniau neu fideos y byddwch yn anfon atom. Diolch!

Neges bwysig

Annwyl Ddarllenwr y Dinesydd,

Mae'n galonogol deall bod cynifer ohonoch yn edrych ymlaen at dderbyn eich copi o'r *Dinesydd* yn ystod y cyfnod pandemig yma a'i holl rwystredigaeth. Bwriad y Pwyllgor yw parhau â'r trefniadau presennol tan ddiwedd y flwyddyn ariannol – ond gan gynnig un peth ychwanegol. Bydd rhifynnau Rhagfyr/Ionawr, Chwefror a Mawrth ar gael ar ffurf copïau papur i'r rhai ohonoch fyddai'n dymuno cael un – yn rhad ac am ddim – dim ond i chi roi gwybod i ni. Byddant ar gael yn y siopau, hefyd.

Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn dibynnu ar barodrwydd ein tîm o ddsbarthwyr gwirfoddol i roi'r copïau 'trwy ddrws y tŷ'. Os na fydd hynny'n ymarferol, byddwn yn eu postio.

Dyna'r cynllun, ac er mwyn ei weithredu, byddem yn ddiolchgar i chi am ein cynorthwyo gyda'r tri mater isod. [Mae'n bosib eich bod wedi derbyn y neges yma'n barod gan eich dosbarthwr arferol.]

Yn gyntaf:

- Os ydych wedi talu yn barod eleni, a fyddai'n well gennych i ni ystyried yr arian hyn yn rhodd i'r *Dinesydd*, neu yn daliad ar gyfer y flwyddyn nesaf, 2021-2022?
- Os nad ydych wedi talu, a fydddech chi'n dymuno cyfrannu rhodd i'r *Dinesydd* am eleni? Mae modd gwneud hyn naill ai:
 - trwy ddefnyddio siec yn daladwy i'r *Dinesydd* a'i rhoi i mi os yn gyfleus neu ei phostio i Ceri Morgan, 24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais, CF15 7HU

NEU

- trwy dalu ar-lein yn uniongyrchol i gyfrif Y *Dinesydd* gan gynnwys eich cod post yn gyfeirnod er mwyn i'r *Dinesydd* wybod pwy ydy'r talwr.

(Manylion Banc: Dinesydd 2000; rhif cyfrif 56401388; cod didoli 60 16 48]

Yn ail, sut hoffech chi dderbyn Y *Dinesydd* am weddill y flwyddyn, gan ddechrau gyda rhifyn Rhagfyr / Ionawr:

- trwy e-bost;
- trwy'r sefydliad, ac os felly, pa gapel neu eglwys, ysgol ac ati;
- trwy siop, ac os felly, pa siop;
- trwy ddrws eich tŷ;
- ar y we, h.y. ar ein gwefan ni neu Bro360?

Yn drydydd, rydym yn brin o ddsbarthwyr sy'n hapus i fynd â'r *Dinesydd* i dai ein darllenwyr a'i roi trwy'r blwch postio. Tybed a allwch chi ein helpu, yn arbennig yn yr ardaloedd hyn:

Bro Morgannwg gan gynnwys y Barri;
Grangetown / Tre-biwt;
Caerffili?

Os ydych chi wedi derbyn y neges yma gan eich dosbarthwr arferol, ac wedi ymateb, yna does dim angen gwneud mwy.

Os na, ac os ydych am ymuno â'r cynllun, a fydddech mor garedig ag anfon eich ateb at Annes Elwy, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost annedinesydd@gmail.com

Diolch am eich cefnogaeth i'n Papur Bro.

Cadwch yn ddiogel
Arthur Evans
(Cydlunydd Dosbarthu)

Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd

John Walter Jones

1946 -2020



Y Cyfaill Annwyl

Wrth ddrws Eglwys Dewi Sant roedd aelodau Côr Aelwyd Caerdydd yn ymgynnull cyn dechrau ymarfer yn 1963 ar gyfer cystadlu yn y Genedlaethol yn Llandudno pan ddaeth un o'r tenoriaid, y diweddar Dafydd Hughes, ataf, gan gyflwyno gogleddwr ifanc gwallt coch oedd yn awyddus i ymuno â'r côr. Roedd y llanc talsyth, swil, newydd lanio yn y brifddinas i ymuno â gweithlu'r Swyddfa Gymreig ym Mharc Cathays. Dyna gychwyn ar gyfeillgarwch rhwng John Walter Jones a minnau a barodd am 57 o flynyddoedd.

Efe, heb amheuaeth, oedd y gŵr mwyaf trwsiadus a fu yn y côr erioed. Roedd John yn hoff iawn o brynu dillad gyda'r 'labeli' ffasiynol diweddaraf - ac felly y bu ar hyd ei oes. Roedd steil yn bwysig iddo, yn enwedig wrth ddewis gwraig, ceir a dillad. Pan laniodd yma yng Nghaerdydd yn ddwy ar bymtheg oed, roedd ganddo gar 'Ffordyn' glas er mwyn iddo deithio ar benwythnosau o Gaerdydd i Fangor i weld ei rieni, y Parchedig Huw a Megan Walter Jones. Nid gyrrwr â gormod o barch at reolau'r ffordd fawr mo John. Cofiaf iddo ddweud wrthyf ei fod wedi taro blaen y car yn y bont wrth adael Llanbryn-mair ar y ffordd i Fangor ryw nos Wener, ac yna heb arafu, wedi bownsio a tharo cefn y car yn y bont oherwydd ei fod yn gyrru'n rhy wyllt, chwedl yntau! Bob tro yr af drwy Lanbryn-mair, 'Pont John Walter' yw'r enw ar y tro peryglus hwnnw. Dyna gymeriad John i'r dim: gŵr ar frys i fynd i bobman.

Cofiaf i'r Guys a'r Joneses fynd i Gaerfaddon un bore Sadwrn yn Volvo newydd John, a minnau'n syllu ar y dashfwrdd gan weld ein bod yn gwneud 100 milltir yr awr ar yr M4! Rhaid cyfaddef fy mod innau hefyd, yn fuan wedyn, wedi gyrru ar 100 milltir yr awr o gwmpas cylchffordd Le Mans mewn Jaguar ar ein ffordd i wersylla yn Llydaw gyda John wrth fy ochr a Gaynor a Meinwen yn y cefn, ynghyd â thomen o offer gwersylla ar y to! Dyddiau dedwydd yn wir!

Astudiodd John yn y Brifysgol yng Nghaerdydd gan ennill gradd mewn Economeg. Bu'n lletya gyda chriw o fechgyn yn Heol Conwy, y drws nesaf i Ganolfan yr Urdd, bryd hynny. Yno cafodd flas ar

fywyd cymdeithasol y brifddinas: mi wn yr adeg honno fod nifer o ferched Aelwyd yr Urdd yn ei lygadu. Ond roedd un ferch yn arbennig o gyffiniau Abertawe wedi dal llygad John - ei henw oedd Gaynor. Cyn pen hir, ces y fraint o ganu'r organ yn mhriodas John a Gaynor yn ardal Mynydd-bach, Abertawe. Dyna gychwyn ar undod priodasol hapus a dedwydd. Ymgartrefodd John a Gaynor yn ardal Rhiwbeina gan dreulio eu bywyd priodasol yno. Priodas symbiotig ydoedd - y deuddyn trwsiadus yn meddu ar bersonoliaethau pur wahanol, ond eto, bu harmoni cytseiniol seingar ar yr aelwyd yn clymu'r ddau yn glos wrth ei gilydd. Bu John o gymorth mawr i Gaynor wedi iddi gael gwahoddiad i ymuno â grŵp lleisiol y Diliau. Cofiaf fod gydag e mewn dawns yn y *Top Rank* yng Nghaerdydd pan oedd Gaynor yn gwneud ei *début* gyda'r grŵp. Roedd John wrth ei fodd yn gyrru i wledydd Ewrop fel *roadie* i'r Diliau, ac mor falch o weld Gaynor ar y llwyfan ac yna ar y teledu gyda Mair a Meleri.

Yn fuan wedi priodi, cafodd John gyfle i fynd am gyfnod i Lundain i weithio yn y Senedd a'r Swyddfa Gymreig. Aeth John, Gaynor a Meinwen, fy ngwraig, a minnau i fyny am benwythnos i ymweld â'r Senedd. (Cefais sioc rhaid cyfaddef, o weld Michael Heseltine â'i draed fyny ar y ford ar y fainc flaen yn Nhŷr Cyffredin.) Cyfnod y Beatles ydoedd, a rhaid oedd mynd lawr i Carnaby Street i brynu dillad 'trendi' - y merched yn prynu cotiau llaes, a John a minnau yn prynu crysau lliw a theis llydan coch. Dyna'r cyfnod y des dan ddylanwad fy nghyfaill o Gaerdydd i newid fy nelwedd yn ara deg, gan wisgo yn debyg iddo yntau, 'Mr Baromedr Ffasiwn Caerdydd', a mynychu siopau fel Hugo Boss ac Austin Reed!

Dyna'r cyfnod hefyd y sylweddolais gymaint oedd y cariad a'r hiraeth am Sir Fôn a Moelfre yn eu golygu i John. Yn fynych byddai priod-ddulliau ac idiomau beiblaidd yn britho'n sgysiaau ac yn f'atgoffa mai mab y mans ydoedd. Un o'i hoff ddywediadau oedd 'dallt y dalltings'! Pan oedd John yn dadlau gyda Gwilym Owen ar Radio Cymru 'slawer dydd, byddai Gwilym yn hoff o bryfocio John (er bod y ddau yn ffrindiau y tu allan i'r stiwdio). Yna pan fyddai dadlau ac anghydweld go iawn rhwng y ddau, byddai John yn dechrau gyda'r frawddeg, 'Gwrandewch gyfaill.!' Dyna'r adeg y byddai'r gwallt coch yn tanio!

Mawr oedd y llawenydd ar yr aelwyd yn Heol y Coed pan anwyd Rebeca yn Ysbyty'r Waun. Er bod Sioned fy merch ychydig yn hŷn na Beca, daeth y ddwy yn ffrindiau agos iawn. Cefais y fraint o fod yn athro cerdd i Beca gydol ei hamser yng Nglantaf. Er bod John a Gaynor yn ffrindiau agos i'n teulu, wnaeth Beca 'riod gymryd mantais o'n perthynas (ar wahân i wneud hwyl ambell wers ar ben ei mam yn smwddio o hyd a John yn darllen y papur). Daeth Beca i ganu'r obo yn llwyddiannus iawn fel aelod o gerddorfa Glantaf a cherddorfa'r sir, gan berfformio droeon yn Neuadd Dewi Sant. Buom fel dau deulu, y Guys a'r Walter Joneses, yn treulio gwyliau haf wedi'r 'Steddfod mewn gwersyll gwyliau yn ne Ffrainc ger Toulon. Byddai John a minnau yn towio'n carafannau bob cam o Gaerdydd i Toulon ac yn ôl.

Dyma'r adeg pan fyddai John yn ymlacio'n llwyr. Cawsom barch mawr gan y *Patron* Claude, perchennog y gwersyll carafannau, pan glywodd fod John yn gweithio i'r Llywodraeth!

Wrth ymlacio ar lan y môr, byddai John yn cysgodi rhag yr haul tanbaid yn ne Ffrainc. Byddai'r gweddiill ohonom yn bolaheulo am oriau ac yn dychwelyd i Gaerdydd yn frown fel cnau. Ond fin nos yn y gwersyll y byddai 'mab y mans' ar ei orau ac wrth ei fodd fel cogydd. Byddai'n creu pob math o sawsiau i fynd efo'r stêc a'r selsig *merguez* Ffrengig. Efe, heb os, oedd y cogydd teuluol gorau yng ngwersyll *Les Amandiers*, a Gaynor a fedrai siarad y Ffrangeg raenus orau. Pan fyddem yn mynd fel teulu ar noson o haf i *chez* John Walter a Gaynor yn Heol y Coed am farbeciw, byddai John wrth ei fodd yn ei ffedog *Chef de cuisine* yn coginio i bawb, ac fel ffafr i *Mistar Guy*, yn gwneud pwddin reis yn arbennig i mi. Y llynedd, er mawr syndod, bu rhaid galw'r frigâd dân i'w gardd yn Rhiwbeina wedi i John roi'r berth ar dân! Roedd yntau a Gaynor wrth eu bodd yn chwerthin ac yn adrodd yr hanes ar adeg dathlu fy mhen-blwydd 'Dolig diwetha.

Trist meddwl mai 'Dolig diwetha oedd y tro olaf y bu John yma ar ein haelwyd. Roedd yr hen arthrits wedi arafu ei gamrau i raddau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond heb ddiffodd ei archwaeth am hanesion pawb a phopeth yn y Gymru gyfoes. Gŵr y pethe oedd John Walter, â'i fys ar bwls Cymru a'r byd. Teithio dramor, llongau, hwylio a chasglu hen greiriau neu hynafolion oedd ei ddilêit. Doedd ganddo fawr i'w ddweud wrth bêl-droed na rygbi. Cafwyd teyrngedau hyfryd yn ddiweddar ar y cyfryngau am ei yrfa yn Bennaeth ar fwrdd S4C, a Bwrdd yr Iaith - y corff y bu John yn gyfrifol am ei sefydlu ac a lansiwyd yn 'Steddfod Casnewydd. Bu John mor ddylanwadol yn ei waith fel gwas sifil yng Nghaerdydd ac yn Llundain. Yn fynych yr hoffai sôn am y cyfeillgarwch arbennig fu rhyngddo yntau a'r

Arglwydd Dafydd Elis-Thomas (neu'r 'Êl' chwedl John!) yn ei gyfnod gyda Bwrdd yr Iaith.

Gofynnodd 'Walter' i mi, tra oedd yn gweithio gyda'r Barwn David Gibson-Watt yn Whitehall, a fyddwn yn fodlon cael cyfweiliad gyda swyddog o MI6 i dystio ei fod yntau, John, yn gymeriad dibynadwy a gonest. Roedd y gwasanaeth cudd yn chwilio am ysbwydwr ar ôl sgandal Anthony Blunt a Guy Burgess. Byddai John, wrth reswm, yn gweld papurau cyfrinachol yn ystod ei waith i Gibson-Watt oedd yn Weinidog ar y pryd yn y Swyddfa Gymreig. Cytunais y byddwn yn caniatáu i gael fy holi gan swyddog MI6 yn fy nghartref yn Rhiwbeina. Roedd yn awyddus i wybod a oeddwn wedi sylwi a fu John yn gwario arian mawr ar gar newydd, gwyliau tramor neu ddillad newydd ac yn y blaen. Nac oeddwn wrth gwrs! Yr adeg honno, doeddwn i ddim yn meddwl bod gan John fawr o bres ar ôl priodi, prynu tŷ yn Rhiwbeina a byw dros dro yn Llundain! Ganol y cyfweiliad efo'r asiant MI6, aeth allan o'r tŷ gan ddweud ei fod wedi anghofio cloi ei gar! Roedd yn ddyn canol oed, yn foel ac yn dew: dim byd tebyg i James Bond! Dywedodd wrth ymadael, 'Thank you Mr Guy, we'll never meet again!' ac i fwrdd ag e yn y niwl a'r glaw yn ei Citroen yn ôl i'w ganolfan MI6 yn Lambeth!

Beca oedd kannwyll llygad John a Gaynor: roedd colli eu hunig blentyn yn ergyd ofnadwy iddynt. Er ein bod yn sgwrsio'n aml am Beca ar yr aelwyd yn Heol y Coed, ac wrth swpera yn y dre, ni wyddai'r un ohonom gymaint fu'r loes a'r poen a deimlai John a Gaynor o golli Beca ym mlodau'i dyddiau.

Hiraethaf am fy nghyfaill hoff. Trist oedd ffarwelio â'r annwyl John Walter. Bydd stôr o atgofion hyfryd yn aros gyda nifer fawr o'i ffrindiau a chyda Gaynor, wrth gwrs, yn ei cholled. 'Nos da Jonno, a diolch am dy gyfeillgarwch dros 57 o flynyddoedd.'

Alun Guy (18 Hydref 2020)

Eisiau helpu dysgwyr gyda'u Cymraeg?

Hoffech chi helpu dysgwyr gyda'u Cymraeg? Mae Dysgu Cymraeg Caerdydd (Prifysgol Caerdydd) yn cynnig cynllun gwirfoddol o'r enw *Siarad* i

ddysgwyr. Mae'r cynllun ynparu dysgwyr a siaradwyr rhugl er mwyn cynyddu hyder y dysgwr i siarad ac i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd y dysgwyr sy'n rhan o'r cynllun yn gallu siarad Cymraeg ac ar lefel Canolradd neu Uwch.

Eisiau helpu dysgwyr gyda'u Cymraeg?

Beth am ymuno â 'Siarad' - cynllun gwirfoddol sy'n dod â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg at ei gilydd.

Ewch i dysgucymraeg.cymru i gofrestru

Oherwydd argyfwng y pandemig mae cynllun *Siarad* yn chwilio am wirfoddolwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl ac sy'n barod i helpu trwy sgwrsio dros y ffôn neu ar blatfform tebyg i Zoom / Facetime / WhatsApp. Bydd y parau'n cwrdd yn gyson i sgwrsio'n anffurfiol am bob math o bynciau - y nod yw neilltuo deg awr dros gyfnod o flwyddyn, ond nod yn unig yw hyn.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan, ac mae modd cofrestru trwy fynd i: dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad

Colofn Hannah

'So long' i ambell Salwch



Pan o'n i'n stiwdent yn y chwedegau, o'dd rhaid 'ciwo' un p'nawn i ga'l fascination. At beth? Wel at y *Smallpox*. Ni wedi gweud ffarwél wrth hwnnw erbyn hyn. Pan ddaw y pigiad, hwyrach fydd y clefyd presennol yn ymuno ag e. Nawr, gadewch i ni feddwl am fwy o'r diflanetig.

Fi'n cofio ambell i blentyn yn 'r ysgol gynradd yn brwydro i gered gyta *calipers*, harns ar eu coese achos bod eu pigyrne nhw'n wan ac yn mynd mas o siâp, ac yn achosi'r clefyd *Rickets* o'dd yn eitha cyffretin pyrt hynny, cyfnod y 50au. Diffyg mewn calsiwm a fitamin D o'dd yr achos, felly dyma ddechre rhoi llwyed o god lifer oil inni bob bore yn 'r ysgol - o'n i'n casáu'r stwff, o'dd e'n troi arno i, ac yn neud i fi bwldacu. W i 'di trio ei gmeryd e'n ddiweddar yn lle'r capsiwls, ond o's dim iws, yr un peth sy'n dicwdd, ych a fi!!!!!! Ond, rhynt rhoi hwnna a sudd oren i blant bach, o'dd y clefyd yn ara ddiflannu o'r wlad. Y bobol o'dd wetyn yn diodde' o'dd yr Asiaid o'dd yn dwad yma. Rhynt bo nhw'n ca'l lot llai o haul, ac yn gorchuddio'u hunen â dillad du, 'n enwetig y menwod, o'n nhw'n datblygu *Rickets*, a rhoddydd yr un moddion iddyn nhw i'w gwella.

O'dd menyw ym Mhontardawe o'dd yn enwog am wella hwn wrth neud torrad wrth y glust. 'Torri Llech' o'dd y dywetiad, torri'r clefyd, a 'Llech' yw'r gair Cymra'g am *Rickets*, OND!!!! wy'n cretu o'dd hyn yn anghyfreithlon!!!

Te Ysgall o'dd y drinieth yn yr Alban, *Scottish Thistle Tea*.

Peth arall o'dd yn gyffretin sl'wer dydd o'dd y Pâs, hen beswch cas, a'r enw Sisneg yn disgrifio'r sŵn — *Whooping cough*. O'dd pobol yn cretu taw'r feddyginieth o'dd anadlu sylffer, felly o'dd na ddewish!!!! - naill ai llosgi tar yn y llofft, ne mynd â'r plant lan at fois yr hewl os o'n nhw'n dicwdd 'tarro', ne mynd â'r plant ar y trêna hwpou penne nhw mas trw'r ffenest o ddod i dwannel er mwyn anadlu'r mwg. Fyde hynny'n bwrw'r *headlines* heddi garantid!!!!!!

Wetyn, yn ôl T. Llew Jones, mynd â phlant lan i efall y gof o'n nhw'n neud pan o'dd hwnnw'n pedoli. Sgwn i a withodd unrhyw un o'r rhain?

Anhwylder arall sy'n ddiarth erbyn hyn yw y Cwinsh ne *Quinsy*. Dolur gwddwg peryglus o'dd hwn, abses ar y tonsils, a dyma rhai o'r achosion mas o hen lyfr:

- yfed dŵr o'r pan fod y corff yn wresog;
- marchogaeth yn erbyn y gwynt a gwddwg y crys ar acor;
- cysgu mewn gwely llaith.

Ar ei witha, o'dd y gwddwg yn gallu cau lan, a fyddech chi n ffili llyncu. Dyma rai o'r meddyginiaethe.

Clwmi hoson wân rownd y gwddwg a sleishen o gig moch o dano fe. O'n i'n ca'l hoson Dad rownd y ngwddwg pan o'dd anwd arno i, a *Vick* ar hwnnw, a *safety pin* i'w ddala yno. (Ma hwnna'n rhoi ystyr newydd i *sock it to me!!!!*) Peth arall o'n nhw'n roi ato o'dd Te Tansy Gwyllt - blotyn bach melyn yw hwnnw, o'n nhw'n berwi'r dail a'i g'mysgu 'da mêl. O'dd ffrind 'da Anti Sal, whar Mam, o'r enw Tansy, a o'dd y ddwy'n arloesol; etho nhw i Ewrop mewn Ffordyn yn 1920 - dwy fenyw!!! Ac o'dd Anti Sal yn whare ffwtbol i'r *Swans* yn ystod y Rhyfel Byd Cynta am fod y dynon i gyd ar faes y gad. Un o fwydydd traddodiadol Cork, lwerddon, yw *Drisheen*, pwddin wa'd sy'n cynnwys Tansy. Sl'wer dydd, meddyginiaeth arall at y Cwinsh o'dd planhigyn o'r enw *Quinsywort*. O'n nhw'n berwi'r dail, ei hidlo, a garglo 'da'r dŵr; o'dd e fod i helpu i acor y gwddwg. Ma'r gair *Quinsy* yn dod o'r Groeg, ac ystyr rhannol y gair yw 'tagu', a na beth o'dd yn dicwdd 'da'r Cwinsh ar ei waetha'.

Gair arall sy'n ddiarth erbyn hyn yw 'carbuncl', ne 'carabyncl' o'n i'n weud: cornwd cas o'dd hwn o'dd yn mynd yn llidus, ac yn boenus iawn. Yr ateb o'dd sugaethan - powltis - a phan gas Dad un o'r rhain ar ei wddwg, nath Mangu bowltis mas o siwger a sepon. Nawr y sepon pyrt hynny o'dd *Palmolive* a *Lifebuoy*, a esgorodd ar y gwpled hon: *Give me your palm Olive, Not on your life buoy!!!!* Triniaeth arall 'to o'dd neud sugaethan mas o'r planhigyn Gwenith y Gog — *Figwort*, blotyn sy'n tyfu mewn manne llaith.

Reit - yr un ola yw - nit tostrwydd ond triniaeth. Peth pobloceth yn y18fed ganrif, a hyd at y ganrif ddwetha, o'dd iwso gelod — *leeches*; o'dd rhain yn glynu at y cro'n ac yn sugno'r drwg mas o'r corff. Heddi, ma na ddefnydd iddyn nhw i helpu cylchrheiad y gwa'd ar ôl, er enghraifft, ailgysylltu bys sy wedi dod bant mewn damwain. Ar un ateg, o'dd menwod Cymru yn clasgu rhain o'r llynnoedd ac roedd miloedd ar filoedd yn cal eu hallforio, i Ffrainc n enwetig. O'dd hi ddim yn rwydd iddy clasgu nhw, o'dd rhaid eu denu , felly o'n nhw'n eu denu at go's hen geffyl, ne at eu coesau eu hunen, a o'dd neud hyn yn amal wrth gwrs ddim yn dda - o'n nhw'n colli gormod o wa'd. Odd Wordsworth m'wn un gerdd wedi cymharu yr anhawster o'u clasgu i drio barddoni!!! (Tw trw!!)

Defnyddiwyd gelod ym mrwydyr Waterloo. O'dd Napolion, pwr dab, wedi reido gormodd ar gefen ei geffyl, ac yn diodde o Glwy'r Marchogion - *Piles* ne *Haemorrhoids* i fod yn sidêt. O'dd y gelen yn cnoi miwn i'r cro'n, ac wrth neud na, o'dd ryw fath o anasthetig yn dod ohono, felly fyddech chi ddim yn timlo dim byd. O'n nhw'n gatel y gelod 'na am tua ucen munud, ac o'dd un yn gallu yfed 20 i 30ml o wa'd, felly fydde ucen

ohonyn nhw yn yfed tua pheint!!! Gas Napolion 25 ohonyn nhw y diwrnod cyn Waterloo — ond colli nath e wetyn!!! Y dywetiad sy 'da ni fel Cymry am rywun sy'n *possessive* yw — 'Ma fe'n citsho fel gelen.' Ma gyta gelod 300 o ddannedd, pump pâr o liced, dwy galon a 32 ymennydd - wel, un 'di rannu miwn i 32 rhan sef yr un peth mwy ne lai - creaduriaid hynod.

Fel wetes i ar y dechre, gobitho bydd y clefyd

presennol yn ymuno â'r criw uchod sy' wedi gweud 'ta ta'.

Os cofiwch, dechreues i 'Colofn Hannah' Rhagfyr dwetha' â stori Nadoligaidd. Dou fish arall fydd hi'n Rhagfyr eto, felly rwpeth bach â naws yr Ŵyl pyrt hynny.

Iechyd da, a hwyl tan yr Ŵyl!

NEGES O FRWSEL

Lowri Haf Cooke yn holi Gwydion Lyn

Mae Gwydion Lyn, sy'n 46 oed, yn gydlynnydd marchnata a digwyddiadau. Wedi magwraeth yn Llandaf, buodd e'n byw ym Mae Caerdydd tan iddo ef a'r teulu symud i Frwsel yn 2012. Mae e'n byw yno gyda'i wraig Elin a'u plant Mari a Fflur – efeilliaid chwech a hanner mlwydd oed.

Beth yw'r sefyllfa ym Mrwsel ar hyn o bryd?

Mae'r sefyllfa yn eithaf chwith yma yng Ngwlad Belg. Mae'r ffigurau yn cynyddu'n ddyddiol a nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbytai a'r gwelyau gofal dwys yn llenwi'n llawer rhy gyflym. Yn debyg i sefyllfa Prydain, mae gwahanol lywodraethau yng Ngwlad Belg yn cymryd safiadau gwahanol, a chynghorau lleol yn cyflwyno deddfwriaethau a rheolau penodol gwahanol i'w gilydd. Mae rheolau gwisgo masg yn gallu amrywio o un stryd i'r llall.

Sut ddechreuodd pethau newid i chi, eich teulu, ffrindiau ac aelodau eich cymuned?

Mae bywyd wedi bod yn llawer mwy ynysig i ni i gyd. Fe ddechreuodd ein cyfnod clo ni rhyw bythefnos cyn Prydain fis Mawrth. Rydym yn ffodus iawn i fyw chydig allan o ganol y ddinas ac mae effeithiau'r pandemig yn hynod o amlwg wrth yrru mewn i'r ddinas. Mae gweld dinas sydd fel arfer yn llawn bwrlwm ac egni nawr yn debycach i apocalyps yn brofiad reit amhlesurus.

Beth yw patrwm arferol eich diwrnod ar hyn o bryd?

Mae fel petai bywyd cartref a gwaith wedi'u plethu'n un cwlwm dwfn dros y misoedd diwethaf. Dw i wedi bod yn ffodus i allu mynychu fy swyddfa yn achlysurol er mwyn cael rhyw sens o normalrwydd i'r wythnos ond mae'r rheolau newydd wedi eu cyflwyno dros yr wythnos diwetha wedi sicrhau bod hynny yn amhosib yn y dyfodol agos felly mae yna deimlad o bwysau'r cloi yn dychwelyd unwaith eto. Mae'n rhwystredig, ond mae yna ddealltwriaeth ymysg fy ffrindiau fod angen hyn er mwyn sicrhau'r dyfodol hir-dymor.

Beth yw eich barn yn gyffredinol ar hyn o bryd?

Dw i'n berson gweddol bragmataidd yn y bôn, felly mae angen gwneud yr hyn mae'r arbenigwyr yn ei argymhell a dilyn y cyfarwyddiadau er mwyn osgoi'r posibilrwydd o wasgaru'r haint yn fwy na sydd angen. Mae'r cyfnod hwn yn sefyllfa ddigynsail, ac felly gorau



po gynta y gallwn ni gael gwared arno a mynd nôl i normalrwydd 2019! Fel Cymro Belgaid swyddogol erbyn hyn, roedd fy nyhead i gael gwared ar drafodaethau Brexit o'r newyddion yn un gref iawn, ond nid fel hyn fydden i wedi dewis hynny!

Beth oedd y / yw'r sioc fwyaf i chi? Beth ydych chi'n ei gollu fwyaf? Neu a fedrwch chi ddweud bod rhywbeth 'da' wedi dod o hyn?

Yn bersonol, mae budd mawr wedi dod yn y cyfnod clo ma. Dw i wedi medru treulio llawer mwy o amser gartre gyda'r plant, a dw i di sylwi bod eu Cymraeg nhw wedi datblygu'n gryf oherwydd hynny sydd yn destun balchder i mi. Er mwyn sicrhau lles iechyd corfforol a meddyliol dw i wedi bod yn ceisio mynd allan i gerdded neu redeg yn ddyddiol – mae angen newid golygfa arna i neu dw i'n teimlo fel pe bawn mewn carchar (er bod oergell, teledu a gwely clyd yma!). Pan symudon ni allan i Wlad Belg wyth mlynedd yn ôl, un o'r dywediadau a grybwyllwyd yn aml oedd 'Dim ond 5 awr ar y trê'n o Gaerdydd.' Mae'r sefyllfa ers mis Mawrth wedi rhoi stop ar hynny. Dy'n ni ddim wedi bod nôl ers mis Chwefror ac mae'r hiraeth a'r chwant i deithio nôl i Gaerdydd i weld teulu a ffrindiau yn cryfhau'n ddyddiol. Felly fel rhan o gadw'n iach yn gorfforol a meddyliol, ac i gael rhyw gysylltiad Cymreig, dw i di tanysgrifo i neud sialens rithiol llwybr arfordir Cymru - 870 milltir dros flwyddyn gan dechrau yn Nghas-gwent a gorffen yng Nghaer. Erbyn heddiw, dw i di colli 25kg (bron i 4 stôn), ac wedi cyrraedd Aberaeron. Pwy a wŷr, dw i'n croesi 'mysedd, dwylo a thraed er mwyn gallu dychwelyd i Gaerdydd cyn 'mod i'n groffen y daith rithiol yma yng Ngwlad Belg.

Oes gyda chi neges i'w rhannu gyda darllenwyr Y Dinesydd?

Oes; arhoswch yn lleol, gwisgwch fasn ac arhoswch yn iach er mwyn i mi gael dod 'nôl i roi cwtsh i'r teulu a ffrindiau.

TYMOR Y CYNHAEAF 2020

Banc Bwyd Caerdydd yn apelio am gymorth ariannol yn hytrach na bwyd

B ydd llawer iawn o ddarllenwyr *Y Dinesydd* wedi hen arfer â chefnogi gwaith Banc Bwyd Caerdydd. Er y bu cyfnod y pandemig yn arbennig o heriol i elusennau ledled y wlad mae'n braf gallu rhannu newyddion da yn achos banc bwyd y brifddinas. Trwy bartneriaeth â Tesco a Morrisons cyfrannodd y ddwy archfarchnad bron 42 tunnell o fwyd dros gyfnod o dri mis, sef digon o fwyd i ddarparu tri phryd bwyd y diwrnod am dri diwrnod i dros 3,700 o unigolion. Mae'r bwyd hwn, ynghyd â'r bwyd a gyfrannwyd gan bobl wrth siopa, gan gasgliadau cymunedol a chasgliadau bwyd mewn eglwysi, a gan gefnogwyr eraill, yn golygu bod digon o fwyd yn warws y banc bwyd yn Sblot ar hyn o bryd. Er hynny, wrth i argyfwng y pandemig barhau drwy'r hydref a thros y gaeaf fe fydd angen y bwyd hwn yn ystod y misoedd nesaf i gynnal teuluoedd ledled y brifddinas sydd mewn argyfwng.



Mae angen fan newydd!

Mae gan y banc bwyd ddwy fan i gludo bwyd o gwmpas y brifddinas - i godi bwyd o'r manau casglu i'r warws a'i gludo wedyn o'r warws i saith o ganolfannau dosbarthu lleol. Gan fod un o'r ddwy fan bellach yn drafferthus mae angen prynu fan newydd er mwyn gallu cludo'r bwyd yn effeithiol. Gan gofio ymrwymiad y banc bwyd i'r amgylchedd, byddai'n ddymunol gallu prynu fan hybrid neu fan drydan.

Mae cael fan newydd ddibynadwy yn gwbl hanfodol i waith y banc bwyd. Mae Banc Bwyd Caerdydd wedi sefydlu ymgyrch i godi tua **£25,000** ar gyfer prynu fan newydd, gan ofyn i fusnesau, eglwysi ac unigolion gefnogi'r ymgyrch. Os hoffech gyfrannu at gost sicrhau fan newydd i'r elusen allweddol hon yn y brifddinas dyma sut mae gwneud.

Cyfrannu: Y ffordd rwyddaf o gefnogi yw mynd i wefan **Banc Bwyd Caerdydd**, clicio ar **Donate money**, ac yna clicio ar y botwm coch **LocalGiving.org**.

Fel arall, gallwch ddanfon sic eidd yn daladwy i *Banc Bwyd Caerdydd* yn syth i swyddfa'r banc bwyd yn y cyfeiriad canlynol:

Banc Bwyd Caerdydd / Cardiff
Foodbank (New Van)

Uned N5

Canolfan Fusnes Bae Caerdydd

Titan Road

Caerdydd CF24 5EJ

Diolch yn fawr iawn!

Adnabod y Gân

P an dach chi'n clywed cerddoriaeth ar Radio Cymru mae gennych chi syniad go dda o bwy sy'n canu. Byddech chi'n adnabod Bryn Fôn, Elin Fflur ac, os dach chi'n ddigon hen, Edward H Dafis. Ond nid y fath yna o gerddoriaeth yw'r unig fath dach chi'n ei chlywed mewn diwrnod. Sut ydych chi efo caneuon yr adar? Os ydych chi fel fi fyddech chi ddim yn rhy dda. Gresyn nad oes DJ yna i gyflwyno fel hyn: 'A dyma, yn rhad ac am ddim, y robin goch i ganu "*Cheap, Cheap!*"'

Rhestr go fyr yw'r caneuon adar dw i'n eu hadnabod sef - yr ysguthan, y bïoden, y fwyalchen, sgrech y coed, brain a'r robin goch. Tydi hynny ddim yn ddigon da. Roedd Daniel Jenkins-Jones yn arbennig ar y rhaglen *Natur a Ni* wrth gyflwyno cân aderyn bob wythnos ac esbonio sut i'w chofio. Er i mi droi'n galed doedd hynny ddim yn gweithio i mi; yr unig un alla i ei chofio yw'r robin goch.

Ddoe, pan oeddwn i wedi mynd am dro cyn i'r haul godi, roeddwn yn clywed y robin goch ym mhob man, bron fel petai'n fy nilyn i ar y daith. Y gwir oedd bod llawer ohonyn nhw ond mi wnaeth i mi feddwl. Y tu ôl i gân y robin roedd llawer o ganeuon eraill. Beth am droi'r broblem wyneb i waered a chanolbwyntio ar un o'r caneuon eraill a thrio ei chlywed mewn gwahanol lefydd yn ystod y daith? Gwneud yr un peth y tro nesaf, a'r nesaf am wythnos gyfan tan i mi fod yn hollol

gyfarwydd â'r gân, wedyn chwilio am y canwr, a fyddai hynny'n ffordd well? Treulio wythnos neu ddwy i sicrhau mod i'n ddigon cyfarwydd wedyn mynd am y nesaf.

Petaswn i ond yn dysgu pedair cân newydd bob blwyddyn mi fyddwn i wrth fy modd!

Beth amdanoch chi? Os dach chi eisiau gwneud yr un peth ewch allan tuag awr cyn y wawr a chyn i sŵn y drafnidiaeth ddechrau, a mwynhewch!

Mae teithiau Cymdeithas Edward Llwyd wedi aildechrau ond, o achos y cyfyngiadau, dim ond i aelodau. Yn anffodus mae llawer o deithiau wedi cael eu gohirio achos cyfyngiadau lleol. Edrychwn ymlaen am ddyddiau gwell i ni i gyd.

Cadwch yn ddiogel.

Rob Evans



Pobol y Rhigwam

Croeso i gornel **Pobol y Rhigwam** unwaith eto. Y dasg y tro diwetha (37) oedd llunio pennill neu gerdd o unrhyw fath ar y testun *Cymydog* neu *Cymdogion*. Daeth cannoedd o gynigion i law, a dyma gyhoeddi'r goreuon isod. Roedd y testun wedi denu ymatebion amrywiol iawn, a braf oedd derbyn limrig, telyneg fer yn ogystal ag englyn milwr. Dyma nhw, gyda sylw neu ddau'n dilyn pob un.

'Pwy yw fy nghymydog?'
Pwy yw e yn wir?
Dw i wedi anghofio.
Ma pla yn y tir.

Cadw draw ma pobun
O achos y peth erchyll,
A geire Sartre yn dod yn wir:
Uffern yw pobol erill.

C'est la vie

Dau bennill o gerdd ogleisiol a gafwyd gan *C'est la vie*. Mae'n syniad trawiadol – fod 'uffern pobl eraill' Sartre yn troi'n wirionedd llythrennol o safbwynt y feirws. Efallai fod angen gwella mynegiant yr ail bennill, sy'n swnio ychydig yn gloff i'r glust.

Mewn pentref yn sir Ceredigion
Rhai od ar y naw yw'n cymdogion –
Hot tub ar ôl cinio,
A wîd cyn noswyllo,
Rôl oriau o ganu penillion.

Lol botes

Enillydd tasg rhif 36 yw
Glenys M. Roberts, Creigiau

Merched y Wawr Y Felin

Nos Iau, 15 Hydref, bu merched yr Eglwys Newydd yn **cogUno** ... ie, dyna chi, cyd-goginio o'u ceginau eu hunain gan ddilyn cyfarwyddiadau Nerys Howell ar Zoom. Mae Nerys, wrth gwrs, yn arbenigwraig adnabyddus ym myd diwydiant Bwyd a Diod. Mae ganddi wefan ddiddorol ac mae ei llyfr diweddar, *Bwyd Cymru yn ei Dymor*, ar werth yn y siopau nawr. Mae'n llyfr hardd sy'n llawn lluniau a



Dyma limrig difyr a di-fai, sy'n portreadu trigolion nodweddiadol Ceredigion i'r dim...

(Cofio) Cymydog

Hen ddyn, drwy'i getyn, gwetws
'Gobitho'n wir 'na'r firws
Cadw draw!' wrth gnocio'r drws.
Owa

Braf derbyn englyn milwr i'r gystadleuaeth gan Owa, a braf clywed acen Cwm Tawe yn y cytseiniaid. Mae'r llinell olaf yn anghywir (nid yw'r hanner cyntaf yn ateb yr 'r'), ond mae'n siŵr fod modd diwygio'r llinell honno. Gallai hwn weithio'n dda fel dechrau cyfres o englynion – addawol iawn.

O Mr Jones, chi'n Gristion,
fe garwn i ga'l gair.
Dechrau Canmol sy'n distewi,
y sŵn trw'r wal fel ffair.

Tampan

Cafwyd pennill awgrymog gan Tampan, er nad yw'n glir beth a awgrymir. Lle bu sain emynau *Dechrau Canu*, mae sŵn aflafar bellach yn dod o dŷ'r cymydog... ydy hyn yn rhyw fath o symbol o ddirywiad a chefnu ar grefydd efallai? Eto, mae hwn yn swnio fel pennill cyntaf mewn telyneg neu gerdd fer, a'r pennill dilynol fyddai wedi gwneud arwyddocâd y cyntaf yn glir.

Felly, mewn cystadleuaeth amrywiol, y cynnig mwyaf llwyddiannus yw'r limrig. Llongyfarchiadau i *Lol Botes* a diolch i bawb am gystadlu.

Y dasg nesaf i'r rhigymwyr yw limrig yn cynnwys yr ymadrodd 'ar ôl yr etholiad'. Gall fod ar ddechrau llinell neu yn y brifodl.

Anfonwch eich cynigion yn ôl yr arfer at bryan.val.james@gmail.com erbyn 20 Tachwedd 2020.

Emyr Davies

ryseitiau diddorol a blasus. Dyma syniad am anrheg Nadolig ardderchog i rywun!

Roedd pawb wedi derbyn rhestr o'r cynhwysion ymlaen llaw ac roedd popeth felly yn barod i baratoi Madarch Morgannwg ynghyd â Phwdin Afal, Eirin a Chnau Almon Crimp.

Cafwyd noson hwylus dros ben a roddodd ddigon o gyfle i holi a dysgu, i glebran a rhannu syniadau ac wrth gwrs braint oedd cael coginio ochr yn ochr â Nerys.

Y tro nesa, 19 Tachwedd, bydd cyfle i osod blodau ar y cyd (dros Zoom eto) gydag Ann Mears. Croeso mawr i unrhyw rai sydd am ymuno â'r gangen neu sydd am daro mewn ar y noson yn unig.

Cysylltwch ag Eiry ar
07855666242 neu
eiry.davies@hotmail.co.uk
am fanylion pellach.

**Madarch Morgannwg a
Phwdin Afal, Eirin a Chnau
Almon Crimp**

Llys a Llan

Colofn sy'n crwydro ar hyd
meysydd llên, crefydd a hanes
yng Nghaerdydd a'r Fro

Yr Athro E. Wyn James



'Eilun Coll': Eluned Morgan, O. M. Edwards a'r Rhyfel Mawr (Rhan 1)

Eluned Morgan (1870–1938) yw un o'r awduron rhyddiaith pwysicaf a ysgrifennai yn y Gymraeg yn nechrau'r ugeinfed ganrif. Merch ydoedd i Lewis ac Ellen Jones, rhai o brif arloeswyr y Wladfa Gymreig a sefydlwyd ym Mhatagonia yn 1865, ac fe roddwyd yr enw 'Morgan' arni, nid oherwydd unrhyw gysylltiadau â Morgannwg – rhai o Wynedd oedd ei rhieni – ond am iddi gael ei geni ar Fôr Gwasgwyn (*Bay of Biscay*) ym mis Mawrth 1870, ar fwrdd y llong *Myfanwy* a oedd yn cludo nifer o Gymry i'r Wladfa.



(trwy garedigrwydd y
ddiweddar Tegai Roberts)

Nid pawb sy'n cael tonnau môr y Werydd i siglo'i grud', meddai Eluned un tro, ac mae gan y môr swyn arbennig iddi a lle amlwg yn ei gwaith. Mae hynny'n wir am fynyddoedd hefyd, ac yn codi'n rhannol o'r ffaith ei bod hi'n rhamantidd wrth reddf. Fel y bardd rhamantaidd mawr hwnnw, Robert Williams Parry, gallai Eluned ddweud, 'Mae hiraeth yn y môr a'r mynydd maith'; ac nid damwain ydyw mai ei dau lyfr gorau yw *Dringo'r Andes* (1904) a *Gwymon y Môr* (1909), y naill gyfrol yn adrodd hanes ei thaith dros y paith o'r wladfa wreiddiol yn Nyffryn Camwy ger Môr Iwerydd i'r wladfa fach newydd a sefydlwyd yn yr Andes erbyn yr 1890au, a'r llall yn adrodd hanes mordaith o Brydain i Batagonia.

Ond mae gan y môr arwyddocâd pellach ym mywyd a gwaith Eluned Morgan. Crynhoir hynny mewn cerdd yn dwyn y teitl 'Eluned Merch y Môr' gan ei chyfaill, y bardd telynogol Wil Ifan (William Evans, 1883–1968) – un a oedd rhwng 1917 ac 1925 yn weinidog mewn capel Cynulleidfaol Saesneg a safai lle y mae Capel y Crwys ar Heol Richmond erbyn heddiw:

Pwy biau'r feinir lân, Eluned deg, ddwys ei chân?
Ai Cymru fach ai Patagonia gu?
Atebai'r cefnfor maith – 'Nid Cymru fach na'r paith,
Ond fi biau'r feinir lân – y fi a'm tonnau lu.'

Neu yng ngeiriau cofiadwy'r Athro Jane Aaron yn y cylchgrawn *Efrydiau Athronyddol* yn 1998: 'Broc môr ydoedd Eluned, yn nofio ar wyneb y dyfroedd heb gyfle i fwrw gwreiddiau.' Ac o gofio'r tyndra creadigol a oedd yn rhan greiddiol o'i phersonoliaeth a'i gwaith – tyndra rhamantaidd rhwng dwy wlad a dau ddiwylliant – peth hynod briodol, mewn gwirionedd, oedd iddi gael ei geni ar y môr, rhwng y ddau le.

Treuliodd Eluned ei phlentyndod yn y Wladfa. Daeth i Gymru am y tro cyntaf yn niwedd 1879, yn naw mlwydd oed, ar ymweliad teuluaid estynedig yng nghwmni ei mam a'i chwaer hŷn, Myfanwy, a byddai'n ymweld â Chymru'n eithaf cyson am gyfnodau o hynny hyd 1918, pan ddychwelodd i'r Wladfa am y tro olaf, gan farw yno, yn y Gaiman, yn niwedd 1938. Yn wir, yn ystod y blynyddoedd rhwng 1896 ac 1918 treuliodd tua dwywaith cymaint o'i hamser yng Nghymru ag yn y Wladfa, a hynny yng Nghaerdydd yn bennaf – rhwng 1902 ac 1904 roedd yn byw yn 29 Beauchamp Street, nid neppell o Gerddi Dispenser yn ardal Glanrafaon; wedyn, rhwng 1905 ac 1906, ac eto rhwng 1908 ac 1910, roedd yn byw ychydig ymhellach i'r gogledd, yn 51 Hamilton Street (oddi ar Heol y Gadeirlan); ac yna, rhwng 1912 ac 1918, ei chartref oedd 'Noddfa', 5 Pen-y-bryn Road, Gabalfa.

Dyma flynyddoedd y creadigrwydd mawr llenyddol yn ei hanes, a chyfnod y tyndra mawr hefyd. Pan oedd yng Nghymru, yng nghanol bwrllwm y bywyd dinesig ac yn symud ymhlith haenau uchaf y bywyd diwyllianol Cymraeg, hiraethai am unigeddau'r paith a brodorion gwâr ond ansoffistigedig Patagonia; ond pan oedd yn y Wladfa, ymdeimlai'n ddwfn â'i hunigrwydd, gan hiraethu am eneidiau hoff cytûn draw yng Nghymru. Dyma hi, er enghraifft, mewn llythyr at William George (brawd David Lloyd George) ym mis Mehefin 1898, yn disgrifio'r profiad gorfoleddus o gyrraedd yn ôl i'r Wladfa wedi cyfnod yng Nghymru:

Pan welais hen draeth llwyd, anial Port Madryn, daeth ysbryd ac asbri'n ôl, a theimlwn hen awelon heulog Patagonia yn rhedeg drwy fy enaid fel trydan, gan lanw bywyd â haul a rhyddid. [... Mae] hamdden a thawelwch yn teyrnasu o'm cwmpas; rhyw ruthro byw y gwelais i bawb yng Nghymru.

Ond mewn llythyr arall at William George yn Nhachwedd y flwyddyn ddilynol, 1899, gall ddweud:

Mae fy nghartref [yn y Wladfa] mor bell a'm bywyd mor unig, fel y mae cael ambell ddarlun o hen gyfeillion o'r tu hwnt i'r môr [ar y wal yn fy nghell] fel pelydryn o heulwen haf yng nghanol gaeaf.

(Cyhoeddwyd y llythyrau hyn yn 1972 yn 'Gyfaill Hoff...': *Detholiad o Lythyrau Eluned Morgan*, dan olygyddiaeth W. R. P. George – cyfrol sydd, yn fy marn i, yn un o glasuron llenyddiaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif.)

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Roedd Nos Lun, 19 Hydref, yn garreg filltir yn ein hanes; roedd y gynulleidfa ar wasgar a'r siaradwr gwâdd ym Mangor. Canlyniad i'r cloi-lawr oedd y trefniant a Zoom oedd y cyfrwng. Roeddem yn ddiogel gyda'n gŵr gwâdd, yr Athro Emeritws Gareth Ffowc Roberts, oherwydd ei fod wedi bod gyda ni o'r blaen, yn ddi-ffael yn ein diddanu ac yn ein herio. Mawr ddiolch iddo am dderbyn yr her a mil diolch i Cerian Angharad am reoli Zoom.

Teitl y sgwrs (dyna yw natur Zoom) oedd teitl ei lyfr diweddar, *Cyfri'n Cewri – Hanes Mawrion ein Mathemateg* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2020). Yn y Rhagair cawn, 'Mae'r deuddeg o fathemategwyr sy'n cael eu cynnwys....yn adlewyrchu dewis personol yr awdur. Buont i gyd yn gewri yn eu dydd, ond nid wyf yn honni mai'r deuddeg....yw'r disgleiraf yn hanes mathemateg yng Nghymru....yn hytrach, mae'r dewis yn agor cil y drws ar gyfraniad mathemateg i'n diwylliant trwy fywyd a gwaith rhai o'r mawrion.'

Mae'r cyfeiriad at ddiwylliant yn amlygu i ddarpar brynwyr nad gwerslyr mo'r gyfrol; fyddwch chi ddim yn fwy medrus mewn prosesau rhifydddeg, algebra, geometreg, ffracsïynau na thebygolrwydd. Ond mi fyddwch yn gyfoethocach eich deall o gyd-

destunau'r agweddau hyn ac, yn benodol, yn gyfoethocach eich gwybodaeth (a'ch balchder) o gyfraniad Cymry i amrywiol ganghennau'r ddisgyblaeth. A wyddoch, er enghraifft, am waith Richard Price (1723-1791) o Langeinwyr (Llangeinor), Cwm Ogwr a osododd seiliau mathemateg yswiriant a threfn pensiynau?

Ym mhob pennod mae hanesion personol, cysylltiadau lleol sy'n gwneud y cyfan yn hwyliog i'r darlennydd. Ym mhob pennod y mae pos (nid yn syndod o gofio am gyfraniadau'r awdur i raglen Geraint Lloyd ar Radio Cymru). Na phoener! Mae atebion y posau ym Mhennod 14. Mae Pennod 3 yn sôn am y rhif rhyfedd π (Pi neu Pai) ac yn cynnwys y pos sy'n gofyn am niwmonig i gofio trefn digidau π . Bydd llawer yn cofio 3.142 o ddyddiau ysgol, ond mae'r gyfres yn mynd ymlaen yn ddi-ddiwedd fel hyn, 3.14159265358979323846264.... Mae Gareth yn cynnig yn Saesneg, 'How I wish I could calculate pi.' Welwch chi'r patrwm rhwng y llythrennau yn mhob gair a'r digidau yn eu trefn? Yn Gymraeg, 'Mae y wefr o wneud mathemateg....', gan dderbyn bod **th** yn un llythyren. Ewch a phrynwch y llyfr!

Ar ddiwedd y cyfarfod cyfeiriodd Gareth at y gyfres a gyhoeddir gan Wasg Prifysgol Cymru sy'n rhoi hanes bywyd a gwaith gwyddonwyr Cymru.

Neville Evans



TACHWEDD

Gwener, 6 Tachwedd

Menter Caerdydd. Cwis Nos Wener gydag Aled Wyn. Am 7.30 p.m. dros Zoom. £5 y tîm. I gofrestru, ewch i www.mentercaerdydd.cymru. Cynhelir y cwis ar nos Wener gyntaf bob mis.

Mercher, 11 Tachwedd

Sgwrs am Dr John Davies, Mallwyd a Beibl 1620 gan Dr Dylan Foster Evans, am 6.00 p.m. dros Zoom. Un o gyfres o sgysiau a drefnir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru i ddathlu 400 mlwyddiant cyhoeddi Beibl 1620. Yn rhad ac am ddim, ond rhaid archebu tocyn:

<https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/symposiwm-beibl-1620-bible-symposium-dr-john-davies-mallwyd-a-beibl-1620/e-yyagxo>

Iau, 12 Tachwedd

Sgwrs y Mis (Menter Caerdydd). Yn ystod wythnos Sul y Cofio, bydd Dr Gethin Matthews a Dr Dylan Foster Evans yn cyflwyno'r gyntaf yn ein cyfres newydd o sgysiau misol. Byddant yn egluro effaith y Rhyfel Mawr ar drigolion Caerdydd a Bro Morgannwg trwy edrych ar rai o'r creiriau sydd yn dal i'w gweld yn ein cymunedau heddiw. Am 7.30 p.m. dros Zoom. I gofrestru, ebostiwch rachel@mentercaerdydd.cymru

Iau, 19 Tachwedd

Merched y Wawr, Cangen y Felin. Trefnu blodau gydag Ann Mears. Am 7.30 p.m. dros Zoom. I gofrestru, ebostiwch Eiry.Davies@hotmail.co.uk.

Gwener, 20 Tachwedd

Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Ifan Morgan Jones (Bangor) ar y testun 'Babel: Agerstalwm a Chenedlaetholdeb yn y 19eg Ganrif'. Am 7.00 p.m. dros Zoom. I gofrestru, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Mercher, 25 Tachwedd

Sgwrs am Thomas Charles, Mary Jones a Chymdeithas y Beibl gan yr Athro E. Wyn James, am 6.00 p.m. dros Zoom. Un o gyfres o sgysiau a drefnir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru i ddathlu 400 mlwyddiant cyhoeddi Beibl 1620. Yn rhad ac am ddim, ond rhaid archebu tocyn:

<https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/symposiwm-beibl-1620-bible-symposium-thomas-charles-mary-jones-a-chymdeithas-y-beibl/e-dvagko>

RHAGFYR

Iau, 17 Rhagfyr

Merched y Wawr, Cangen y Felin. Adloniant Nadolig gan Trystan Francis ac Owen Saer. Am 7.30 p.m. dros Zoom. I gofrestru, ebostiwch Eiry.Davies@hotmail.co.uk.

I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler
manyllion ar dud. 2

NEWYDDION O'R EGLWYSI

EGLWYS MINNY STREET

Addoli a chydaddoli

Yn ystod mis Hydref, parhawyd i agor drysau'r capel am 10:30 a.m. ar fore Sul ar gyfer addoliad i aelodau sy'n dymuno ac yn rhydd i ddod i'r capel. Y Gweinidog sy'n arwain yr addoliad, gan ddilyn y taflenni sy'n rhoi amlinelliad o'r oedfa wythnosol a baratowyd ganddo'n gyson ers dechrau'r pandemig. Mae'r taflenni (sydd i'w gweld ar wefan yr eglwys) yn parhau i gael eu dosbarthu i bob un o aelwydydd yr eglwys fel bod pawb, boed yn y capel neu ar yr aelwyd, yn medru cydaddoli.

PIMS a'r Ysgol Sul

Mae cyfarfodydd PIMS (Pobl Ifanc Minny Street) wedi ailgychwyn am 7:00 p.m. am yn ail nos Lun drwy drefniant ar y cyd â'r Deml Heddwch ac mae plant yr Ysgol Sul yn cwrdd yn wythnosol am 4:30 p.m. brynhawn Mawrth ar Zoom.

Cymdeithasu wrth gerdded

Braf a llesol fu'r cyfle i aelodau gwrdd yn gyson i gerdded, sgwrsio a mwynhau paned (gan gadw pellter cymdeithasol) yn awyr iach manau dymunol fel Caeau Pontcanna a llwybr arfordir Penarth dros y misoedd diwethaf.

Mentor ymlaen

Dan arweiniad ein Gweinidog, â chefnogaeth ymddiriedolwyr yr eglwys, ychwanegwyd at y cyfleoedd i ddod at ein gilydd. Ar fore Mercher am 11:30 a.m. cynhelir sesiwn addoliad syml ac amgen i nifer cyfyngedig yn y festri. Gyda'r nos hefyd am 6.00 p.m. ar ddydd Mercher cynhelir oedfa hwyrol yn cyffwrdd â hanfodion ein ffydd yn y capel, gyda'r trefniadau yn debyg i'r rhai ar gyfer oedfa bore Sul. Er mwyn cydymffurfio â chyfyngiadau a rheoliadau'r pandemig, mae'n ofynnol i aelodau roi gwybod ymlaen llaw os ydyn nhw'n dymuno mynychu oedfa yn y capel.

Wrth lunio'r adroddiad hwn ar gyfer *Y Dinesydd* mae cyfnod clo byr pellach ar waith a bu'n rhaid rhoi'r trefniadau uchod o'r neilltu am y tro, ond rydym yn parhau i addoli ar Zoom ar fore Sul nes bod y darlun wedi 9 Tachwedd yn glir. Mae'r Ysgol Sul hefyd yn parhau ar Zoom.

www.minnystreet.org
@MinnyStreet

TABERNACL, YR AIS

Cofio Margaret Williams

Symudodd Margaret Williams i'w fflat yn yr Eglwys Newydd adeg y Pasg a newyddion annisgwyl oedd clywed am ei marwolaeth. Yn berson llawn bywyd, magodd Rhian a Geraint, a'u gweld yn blodeuo, a bu'n fam-gu arbennig i'w chwe ŵyr. Cyfrannodd yn gyson i'w chymuned leol ac i fwrlwm y Tabernacl.

Cymdeithas P'nawn Iau / Mudiad y Chwiorydd

Bu'n rhaid gohirio Cyfarfod Blynyddol Mudiad y Chwiorydd, oedd i'w gynnal yn y Tabernacl, pan roedd Ruth Davies i'w hanrydeddu â'r llywyddiaeth. Gwyddom fod llawer ohonom yn hoffi gwau a gwelwyd bod cyfle i gyfrannu at gynllun Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, sydd eisiau cymorth i greu 'Blanced Gobaith' anferth o liwiau'r enfys. Mae'r enfys yn symbol o heddwch a gobaith ac yn dangos inni fod golau ar ben draw'r twnnel wedi cyfnod tywyll y pandemig. Hefyd ar ddiwedd mis Medi paratôdd Ruth ac Ann Williams becynnau o ddanteithion prynhawn a'u dosbarthu i'w cyd-aelodau yn y Gymdeithas P'nawn Iau.

Prosiect y Ffoaduriaid

Bu nifer yn dilyn rhaglen hyfforddiant y Swyddfa Gartref ar Zoom yn ddiweddar fel paratoad i groesawu teulu o Syria i Gaerdydd. Er i'r broses arafu'n ddiweddar oherwydd y clo, anfonwyd cais at Gyngor Caerdydd am eu cefnogaeth.

Enillydd Gwobrau Womenspire

Llongyfarchwn Elinor Snowsill ar dderbyn y wobwr am ysbrydoli eraill ym maes Chwaraeon. Bu'n chwarae gyda Thim Rygbi Cenedlaethol Merched Cymru, a gweithiodd yn gyson galed gydag elusen *School of Hard Knocks*, sy'n cynorthwyo merched ar draws De Cymru sy'n gweld ymroi i fyd addysg yn heriol.

Oedfaon mis Hydref

Ym mis Hydref cynhaliwyd yr oedfaon yn y bore: fe'u darlledwyd yn fyw ar Facebook y Tabernacl ac yna'u hailddarledu ar YouTube. Dechreuwyd gyda Chwrdd Diolchgarwch gan y plant dan ofal Marc Jon Williams, yna gwasanaeth yng ngofal y Parchg Huw Lewis ac yn olaf oedfa gymun gyda'r Gweinidog wrth y llyw.

EGLWYS DEWI SANT

Diolchgarwch am y Cynhaeaf

Cynhaliwyd Gwasanaethau Diolchgarwch ddydd Sul 4 Hydref yn yr eglwys ac yn rithiol. Addurnwyd yr allor yn gelfydd a phrydferth gan Ann Mears.

Cyngor Plwyf Eglwysig

Cafwyd cyfarfod o'r Cyngor Plwyf nos Lun 12 Hydref ar Zoom. Ymhlith y penderfyniadau a wnaed trefnwyd patrwm newydd i'r gwasanaethau yn yr eglwys (os a phan fyddant yn cael eu caniatáu) fel a ganlyn: Sul cyntaf, 9:00 a.m. Cymun Bendigaidd; ail Sul, 6:00 p.m. Hwyrol Weddi; trydydd Sul, 9:00 a.m. Cymun Bendigaidd; pedwerydd Sul, 9:00 a.m. Boreol Weddi; pumed Sul, 6:00 p.m. Cymun Bendigaidd.

Bydd y podlediadau o wasanaethau boreol a hwyrol bob Sul yn parhau. Mynegodd y Cyngor ei werthfawrogiad o barodrwydd Dyfrig a leuan i baratoi'r gwasanaethau hyn, ac fe'u llongyfarchwyd ar eu safon.

Noson Caws a Gwin

Cynhelir Noson Caws a Gwin rithiol ar Zoom nos Iau 5 Tachwedd am 7:00 o'r gloch. Bydd hyn, gobeithio, yn gyfle i gymdeithasu wedi misoedd o gyfyngiadau. Am fanylion, cysyllter â'r Ficer.

Festri'r Pasg 2020

Nos Lun 23 Tachwedd am 7:00 o'r gloch cynhelir Festri'r Pasg ar Zoom. Dosberthir yr Adroddiad Blynyddol cyn hynny.

Cloch Dewi

Mae rhifyn diweddaraf *Cloch Dewi* yn awr ar gael. Unwaith eto llwyddodd y golygydd, Wyn Mears, i gyfuno erthyglau a lluniau i wneud rhifyn diddorol a lliwgar. Gellir sicrhau copi drwy gysylltu â'r Ficer.

Coffi a Chlonc

Dan arweiniad Sian Thomas cynhaliwyd cyfarfod Coffi a Chlonc i ddysgwyr ac eraill ar Zoom ddydd Sadwrn 17 Hydref. Cynhelir y cyfarfod rithiol nesaf ddydd Sadwrn 21 Tachwedd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynhesaf i Alun a Bethan Jones ar enedigaeth merch, Nel - wyres i Huw a Heulwen Jones. Pob bendith iddynt fel teulu.

Cydymdeimlad

Estynnir ein cydymdeimlad â Carys, Alun a'r teulu yn eu profedigaeth.

BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Oedfaon mis Tachwedd

Yng nghyfnod y clo estynedig 'rydym yn ddiolchgar bod 'na gyfeillion sydd wedi bod yn cynnal oedfaon ac Ysgol Sul rithiol ym Methlehem. O ailgydio yn y capel wedi'r 9fed o Dachwedd dyma'r drefn am weddill y mis:

15fed - Parchedig Gethin Rhys
22ain – Arwel Ellis Owen
29ain – Delwyn Sion

Archesgobion yn ymyrryd mewn gwleidyddiaeth?

Cafodd llythyr a ddanfonwyd yn ddiweddar at y *Financial Times* gylchrediad mwy eang na darllenwyr arferol y papur. 'Roedd y rhai a roddodd eu henwau ar waelod y llythyr hwn yn anghyffredin i'r graddau mai Archesgobion Cymru, Caergaint, Efrog ac Armagh, a Phrif Esgob (Eglwys Esgobol) yr Alban oeddynt. Byddai Justin Welby yn fwy cyfarwydd na'r gweddill â thudalennau'r papur o gofio ei swyddogaeth flaenorol yn y diwydiant olew.

Trafod y Mesur Marchnad Fewnol, oedd yn cael sylw Tŷ'r Arglwyddi y diwrnod hwnnw, 'roedd y llythyr. Pryderu yr oeddynt am ddyfodol y Deyrnas Unedig a'r sefydliadau datganoledig, a'u perthynas â'i gilydd, a'r tanseilio hyder a'r ewyllys da sy'n bodoli ar hyn o bryd. Byddai torri Cyfraith Ryngwladol, 'mewn amgylchiadau cyfyng a phenodol', yn andwyol i faterion cyfreithiol a pholiteidd, ac yn fater o bwys moesol. A byddai'n amharu ar Gytundeb Ewrop ar Hawliau Dynol a Chytundeb Heddwch Gogledd Iwerddon. Mynegir pryder gwirioneddol am sylfeini ein democratiaeth, a'r gwerthoedd a'r egwyddorion rheiny fyddai'n cael eu harddel i'r dyfodol.

Pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi, sy'n cynnwys 26 aelod o Loegr ar Fainc yr Esgobion, o 395 i 169, o blaid gwelliant i'r Mesur, ac mae bellach yn ôl yn Nhŷ'r Cyffredin i ystyried ei ddiwygio.

Dyma sylw Archesgob Cymru, mewn cyfweiliad â BBC Cymru, i'r awgrym eu bod yn ymyrryd mewn materion na ddylent: 'Mae'r rhai sy'n dweud nad yw crefydd a gwleidyddiaeth yn cymysgu yn bod yn rhy ddetholus, dw i'n meddwl, yn y ffordd maen nhw'n darllen eu hysgrythur.'

EBENESER

Cymdeithas y Chwiorydd

Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd ddydd lau 15 Hydref ar y ffôn. Daeth deuddeg o'r chwiorydd i gynhadledd ffôn ac mor braf oedd clywed lleisiau pawb am y tro cyntaf ers mis Mawrth diwethaf. Fe weithiodd y dechnoleg yn ardderchog. Cadeiriwyd y sesiwn gan Alun, y gweinidog, ac fe ddarllenodd Salm 8. Yna fe weddiodd Melora Parry yn ystyriol ar yr Arglwydd. Bwriedir cynnal cyfarfod tebyg eto ar 5 Tachwedd.

ODID

Mae Astudiaeth Feiblaidd *ODID* wedi bod yn cyfarfod yn wythnosol ar Zoom ac rydym wedi cael bendith fawr yng nghwmni'n gilydd yn edrych ar Air Duw. Yn ystod y pedair wythnos diwethaf rydym wedi bod yn cnoi cil dros lyfr difyr Jona ac wedi cael maeth ohono. Esboniad cyfoes a heriol o Lyfr Jona, sydd werth ei ddarllen, yw *The Prodigal Prophet* gan Tim Keller. Mae'r awdur yn dangos pa mor gyfoes yw cynnwys y llyfr hwn ar lefel bersonol, eglwysig a chymdeithasol. Mae'n delio â'r frwydr fewnol sydd yn ein calonnau wrth ymateb i Dduw: hunanoldeb a hiliaeth; gras cyffredinol Duw tuag at ddynoliaeth a gras neilltuol. Bu trafodaeth ers canrifoedd ymhlith ysgolheigion Beiblaidd ai llyfr ffeithiol hanesyddol yw Llyfr Jona yntau dameg sy'n defnyddio lleoliadau a phersonau hanesyddol.

Agor y Llyfr

Y mae tîm *Agor y Llyfr* Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd ar hyn o bryd yn gwneud fideos ar Zoom o straeon Beiblaidd y bydd modd i ysgolion eu defnyddio yn eu gwasanaethau boreol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sydd yn y tîm yn bobl sydd wedi ymdeol.

Diolchgarwch

I ddathlu Diolchgarwch eleni gwahoddwyd yr aelodau i gyfrannu bag o fwyd, tuniau a bwydydd sych i'w rhoi tuag at waith Enfys Gobaith. Mae'r elusen yn ceisio estyn llaw o gymorth i'r digartref ac ymgeiswyr



lloches yng Nghaerdydd. Mae hi wedi bod yn gyfnod anodd iawn ers mis Mawrth ond mae'r gwaith wedi parhau. Mae'r elusen yn hynod ddiolchgar am unrhyw gyfraniad. Fel y gwelwch yn y llun cludwyd llond cist car o fwyd i'r ganolfan. Diolch i aelodau Ebeneser am eu cyfraniadau. Gallwch ddarllen mwy am waith Enfys Gobaith drwy fynd i'w tudalen Facebook - *Rainbow of Hope*.

BETHEL, PENARTH

Pen-blwydd Hapus Harri!

Anfonwn ein cariad a'n dymuniadau gorau at Harri, ein haelod hynaf, yn 98 oed, ar achlysur heriol yn ei hanes, sef, symud o'i gartref i loches gofal ym Mhenarth. Yn ôl y sôn mae Harri'n setlo'n dda ac yn ddedwydd ei fyd.

Myfyrdodau oedfaon mis Hydref

Er 6 Medi rydym wedi bod yn amrywio lleoliad ein hoedfaon rhwng y capel a Zoom, gan geisio darparu ar gyfer dymuniadau aelodau gwahanol. Ar ddyddiad ysgrifennu'r nodiadau hyn (26 Hydref) mae'r dewis hwnnw wedi'i ddileu; dim ond Zoom fydd yn bosibl am gyfnod amhenodol. Dyma amlinelliad o fyfyrdodau ein gweinidog yn ystod mis Hydref.

6 Hydref Exodus 17, 1-7. Dŵr o'r graig. Ydy'r Arglwydd gyda ni? Rhaid ymddiried.

11 Hydref Oedfa Ddiolchgarwch gyda'r plant. Salm 122. Diolch am fwyd a rheidiau bywyd, heb anghofio'r GIG (Gwasanaeth Iechyd Gwladol). Yn benodol ar gyfer yr oedfa hon, lluniwyd emyn gan Euryn Ogwen. Dyma'r pennill cyntaf o bedair,

Arglwydd y cynhaeaf, edrych
Pa mor ffrwythlon yw y tir,
Ac mor aeddfed yw'r cynhaeaf
Ar lechweddau'n daear ir.

Anfon ninnau

I gael gweithwyr at Dy waith.

Mae'r mesur (878747) yn gyfarwydd gyda sawl tŷ yn *Caneuon Ffydd*.

18 Hydref Luc 10, 1-12. Cenhadaeth y Deuddeg a Thrigain. Glynwn wrth yr hyn sy dda, ond cofiwn ysgwyd y llwch a diosg y pethau nad oes eu hangen mwyach. Mentrwn.

25 Hydref Ioan 14, 7-11 Dangos i ni y Tad. Exodus 33. Duw yn bell ond yn gofyn i ni wneud ymdrech. Iesu yn ddatguddiad o Dduw. Sylwer ar Emyr 140 yn *Caneuon Ffydd* – 'Mor fawr wyt Ti'.

BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y misoedd diwethaf, tra bod y capel ar gau, bu cyfle i drefnu gwaith adfer wal gefn y capel, y tu fewn a thu fas. Erbyn dechrau mis Hydref roedd yr adeilad wedi ei lanhau yn drwyadl ac yn barod ar gyfer cynnal gwasanaethau. Roedd yn bleser croesawu'r Parchg Aled Edwards i arwain ein gwasanaeth cyntaf yn y capel ers mis Mawrth. Fel pob capel arall bu raid cau'r adeilad unwaith eto ar y Sul canlynol yn unol â chyfarwyddiadau'r Llywodraeth.

Rydym yn lwcus bod gwasanaethau ar Zoom wedi parhau bob bore Sul ers mis Ebrill. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n gweinidog, y Parchg Evan Morgan, am gynnal y sesiynau hyn sydd wedi ein helpu i wynebu'r holl rwystrau sy'n ein poeni. Yng nghanol y mis cynhaliwyd Bore Coffi ar Zoom oedd yn gyfle i gyfarch ein gilydd, i rannu newyddion, a chyfnewid syniadau.

Llongyfarchiadau i Hafwen a Gwyndaf Roberts wrth iddynt ddathlu eu priodas efydd. Dymuniadau gorau hefyd i rai a fu'n dathlu penblwyddi arbennig yn ystod y mis – Shirley Williams a Trystan Francis. Dymunwn adferiad buan i Mair Davies wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. A chofiw'n at bob un sy'n gaeth i'w cartrefi yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn.

EGLWYS Y CRWYS

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Rhian Huws Williams yn ei phrofedigaeth o golli ei thad. Meddyliwn amdani ynghyd â'r teulu oll yn eu hiraeth.

Dymuniadau gorau

Mae'r Parchg Cynwil Williams a'r Dr John Henry yn ôl gartref wedi cyfnod mewn cartref gofal ac ysbyty. Pob dymuniad da iddynt ac i Mrs Enid Jones yn Ysbyty Dewi Sant a'r Athro John Gwynfor Jones a'r teulu yn y cyfnod anodd hwn.

Llongyfarchiadau

Mae William a Nesta Tiplady yn dad-cu a mam-gu unwaith eto. Llongyfarchiadau cynnes i Daniel a Sioned ar enediggaeth Owain Llywelyn, brawd bach i Steffan ac Ifan a chefnwr i Siôn. Pob bendith.

Taith rithiol

Cynhaliwyd cyfarfod rithiol o'r Gymdeithas yng nghwmni Bethan Jones-Ollerton sy'n gweithio i Fenter Caerffili. Cawsom ddarlun o'i

magwraeth yn Papua Guinea Newydd lle roedd ei thad yn athro. Trwy'r lluniau cawsom flas ar fywyd ar yr ynys sydd wedi cael cryn ddylanwad ar fywyd Bethan. Diolch yn fawr iddi am noson hwyliog ac i Cerian Angharad am y trefniadau.

Oedfaon

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch rhithiol o dan ofal yr Ysgol Sul gydag amrywiaeth o eitemau. Cafwyd sgwrs hyfryd i'r plant gan y Parchg Haydn Thomas. Diolch iddo am ei hynawsedd ac i Peredur Owen Griffiths am barhau â'r trefniant o gynnal y gwasanaethau rithiol.

Bydd gwasanaethau Tachwedd o dan ofal y Gweinidog gydag Oedfa Gymun ar y Sul cyntaf, yna oedfaon o dan ofal y Parchg Lona Roberts, y Parchg Glyn Tudwal Jones, a'r Parchg Robert Owen Griffiths.

EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Cynnal yr Offeren

Er nad oes Offeren yn Gymraeg yn yr eglwys ar hyn o bryd, mae eglwys Teilo Sant yn darparu tair Offeren dros y Sul a bydd tua mil o bobl yn gwyllo ar y we yn ogystal â'r rhai sy'n bresennol yno. Mae'r plwyf hefyd yn cynnig gwasanaeth ar y ffôn sy'n caniatáu i'r sawl sydd ddim yn defnyddio'r dechnoleg fodern wrando ar yr Offeren ar eu ffôn gartre.

Nid yw'r eglwys ar agor heblaw am y gwasanaethau, ond mae llif byw yn rhedeg am bedair awr ar hugain bob dydd. Gellir ymweld â'r eglwys ar y we ar unrhyw awr o'r dydd neu'r nos i fwynhau'r awyrgylch o weddi yno. Bydd sawl un yn troi i mewn yng nghanol y nos, pan fydd gofid neu salwch yn eu cadw ar ddiuhun – ac yn gallu derbyn cysur o weddi dawel yn awyrgylch tangnefeddus yr allor.

Gŵyl Merthyron Cymru

Hydref 25ain yw Gŵyl Merthyron Cymru, chwech o Gymry a gafodd eu datgan yn Saint ar y dyddiad yma 50 mlynedd yn ôl. Roedd Esgob Daniel Mullins a'r Tad Edwin Regan, fel yr oedd ar y pryd, ymhlith cannoedd a aeth i Rufain i fod yn bresennol ar y diwrnod arbennig hwnnw. Ymhlith y chwech mae Sant Philip Evans a Sant John Lloyd, a rannodd gell â'i gilydd yng Nghastell Caerdydd cyn cael eu dienyddio. Mae safle'r grocbren wedi'i nodi â phlac glas ar adeilad ar gyffordd

Heol Richmond a Heol Crwys.

Teyrnged i Nia Harri

Un cysur o golli rhywun a fu'n wirioneddol sâl yw'r cyfle a ddaw i'w chofio mewn dyddie gwell - dyddie pan roedd Nia yn fenyw ifanc anturus ac afieithus, yn mwynhau teithio'r byd a dysgu Sbaeneg. Un haf fe dreuliodd rai misoedd mewn canolfan eglwysig yn Ecuador yn helpu plant llwglyd i gael addysg a bwyd mwy maethlon. Mae chwaer yn y cartref yn dal i gofio Nia ac ry' ni gyd yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu mor garedig i gronfa goffa iddi fydd yn helpu dros 200 o'r plant hynny. Codon ni dros \$6,000 ac mae'r ganolfan - fel ni - yn gwerthfawrogi'n fawr. *Guto Harri*
cyswllt: carys@caerdelyn.com

SALEM, TREGANNA

Bedydd

Bedyddiwyd Nel ddydd Sul 4 Hydref yn Salem, merch fach Iona a Rheinallt. Hyfryd oedd gallu gwneud ar ôl agor yr eglwys unwaith eto a phob dymuniad da i chi fel teulu i'r dyfodol.

Agor Salem

Braf oedd agor drysau Salem unwaith eto cyn y cyfnod clo newydd, a gweld aelodau gwahanol yn dod bob wythnos i'r capel. Hyfryd hefyd yw gallu mwynhau gwasanaeth y gall pawb ei fynychu dros Zoom cyn hynny fore Sul, am 10:15. Croeso i chi ymuno; gallwn sicrhau eich bod yn derbyn y linc.

Cwis y Bobl Ifanc

Cynhaliwyd cwis dros Zoom nos Wener 9 Hydref gyda'n cwisfeistr penigamp, Dewi! Ymunodd criw bywiog o bobl ifanc Salem - noson o hwyl! A noson o gymdeithasu, er mewn ffordd wahanol i'r arfer!

Bore Coffi

Braf oedd cael cyfle am sgwrs a choffi dros Zoom fore Mercher 7 Hydref, a mwynhau cwmni yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn.

Cydymdeimlo

Rydym fel eglwys wedi colli nifer o aelodau gwerthfawr a hoffus yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn fawr â Gaynor ar ôl colli John Walter Jones, ac â Dylan a'r teulu wedi colli Delyth Jones. Rydym yn cydymdeimlo hefyd ag Iris a'r teulu ar ôl colli Bryan Howells. Meddyliwn hefyd am Sarah Astley wedi colli ei mam, a Graham Bowen ar ôl colli ei fam yn ddiweddar. Mae pob un ohonoch yn ein meddyliau ar hyn o bryd.

YR EGLWYS EFENGYLAIDD

Paned a Sgwrs

Yn ein cyfarfod diwethaf ar Zoom 'roedd yn braf iawn cael cwmni Nerys King, un o blant yr eglwys, yn sôn am ei gwaith gyda merched y diwydiant rhyw yn Pattaya, Gwlad Thai. Aeth Nerys a'i gŵr Tom allan i Wlad Thai ddwy flynedd yn ôl a cheisiodd Nerys grynhoi'r prif argraffiadau i ni.

Ffocws arbennig Tom a Nerys yn ystod y ddwy flynedd fu dysgu'r iaith. Roedd hyn yn dipyn o her gan fod yr iaith Thai yn donyddol sy'n ychwanegu tipyn at y cymhlethdod o'i meistrol. Nid peth hawdd chwaith oedd symud i wlad arall a cheisio ymgwyfarwyddo â diwylliant a meddylfryd hollol wahanol, heb sôn am ddot i arfer â'r gyrru gwyllt!

Roedd cydweithio â chenhadon o

wledydd eraill hefyd yn dod â'i heriau er bod yr ymdeimlad o fod yn rhan o deulu byd-eang Duw yn braf iawn. Wrth orfod gadael bywyd cyfarwydd daeth Tom a Nerys i sylweddoli bod rhaid iddynt ddibynnu llawer mwy ar Dduw ac o ganlyniad i hyn 'roedd eu ffydd yn sicr wedi tyfu.

Soniodd Nerys ychydig am y meddylfryd Thai gan egluro bod y syniad o bechod yn ddieithr ac yn amwys i drigolion Gwlad Thai. Gan eu bod yn teimlo bod rhaid gwneud rhywbeth i haeddu rhodd roedd y cysyniad o faddeuant a gras Duw hefyd yn anodd. Ond roedd hi'n hyfryd gweld rhai yn dechrau deall a gwerthfawrogi gras a chariad Duw tuag atynt yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Oherwydd y pandemig mae'r llywodraeth wedi cau ffiniau'r wlad

dros dro ac i wlad sy mor ddibynol ar dwristiaeth mae hyn yn andwyol iawn yn economaidd. Ond gobaith Tom a Nerys yn sicr yw dychwelyd i Pattaya pan fydd hi'n bosib iddynt gael visa newydd.

Brecwast Merched

Yn ystod y misoedd diwethaf buom yn edrych gyda'n gilydd ar gyfrol John Piper *Coronavirus and Christ*. Ysgrifennodd yr awdur y gyfrol nôl ym mis Mawrth ar ddechrau'r pandemig gan rannu'r llyfr yn ddwy ran. Teitl y rhan gyntaf yw *The God Who Reigns over the Coronavirus*, a'r ail, *What is God Doing through the Coronavirus?* Mae wedi bod yn dda ac yn gysur i ni atgoffa'n hunain bod Duw yn dal i reoli er gwaetha'r feirws. Buddiol hefyd yw ceisio meddwl beth mae Duw yn ei wneud yn yr adeg ryfedd yma.



Y Nadolig gyda Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg



Ymunwch yn ysbryd yr Ŵyl gyda Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg wrth i ni ddathlu'r Nadolig mewn ffordd ychydig yn wahanol i'r arfer gyda phopeth yn symud ar-lein. Bydd llond sach o weithgareddau ar gyfer y teulu cyfan i godi calon yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mewn dwy sesiwn flasmus ar ddechrau Rhagfyr, bydd y cogydd **Nerys Howell** yn cynnig syniadau ar gyfer ryseitiau tymhorol a fydd yn tynnu dŵr o'r dannedd. Testun **Sgwrs y Mis** fydd 'Traddodiadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yng Nghymru' pan fydd panel o arbenigwyr yn trafod ac yn egluro rhai o hen arferion yr Ŵyl.

Cwestiwn sy'n codi'n aml yr adeg yma o'r flwyddyn yw: 'Sut mae lleihau gwastraff a chael Nadolig Cynaliadwy?' Cawn ddysgu mwy yng nghwmni criw Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru gyda chyfle i greu torch gan ddefnyddio deunydd o'r ardd.

Nos Iau, 17 Rhagfyr, cawn ein diddanu gan rai o drigolion talentog Caerdydd a Bro Morgannwg mewn **Cyngerdd Nadolig** dros Zoom. Arfon Haines Davies fydd yn arwain y noson a bydd yr elw yn mynd at yr hosbis i blant, Tŷ Hafan. Yn ogystal â chynnwys perfformiadau cerddorol a darlenniadau tymhorol, bydd y gyngerdd yn rhoi cyfle i chi ymuno yn yr hwyl drwy ganu carolau - gyda'r cysur o wybod eich bod chi ar 'mute'!

Bydd ein gweithgareddau Nadoligaidd yn cynnwys rhywbeth i blesio pawb gyda **Sesiwn Canu Carolau** yng nghwmni Do Re Mi a chyfle i ymweld â **Groto Rhithiol Siôn Corn**. Gallwch hefyd archebu **Llythyr gan Siôn Corn** er mwyn i aelodau ifanca'r teulu dderbyn

nodyn yn Gymraeg gan y dyn ei hun! A bydd Alis Knits yn cynnig syniadau syml am sut i greu addurniadau lliwgar ar gyfer eich cartref.

Cewch fwy o fanylion am holl weithgareddau eraill Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg ar ein gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol. Ond am fwy o wybodaeth, cofiwch gysylltu:

post@mentercaerdydd.cymru

NADOLIG GYDA MENTER CAERDYDD A
MENTER IAITH BRO MORGANNWG

CADWCH Y DYDDIAD!

I'w cynnal dros ZOOM

Iau, 3/12/20 + Iau, 10/12/20 - 3.00y.h.
Coginio ar gyfer yr Ŵyl gyda Nerys Howell

Prynhawn Llun, 7 Rhagfyr - 1.30y.h.
Sesiwn Nadolig Cynaliadwy a chreu torch gyda
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Nos Lun, 14 Rhagfyr - 7.30y.h.
Sgwrs y Mis: Traddodiadau'r Nadolig a'r
Flwyddyn Newydd yng Nghymru

Prynhawn Mercher, 16 Rhagfyr
Canu carolau gyda Do Re Mi

Nos Iau, 17 Rhagfyr - 7.30y.h.
Cyngerdd Nadolig gyda pherfformiadau cerddorol,
darlenniadau a chyfle i ganu carolau

Nos Wener, 18 Rhagfyr - 5.00y.h.-7.00y.h. a
dydd Sadwrn, 19 Rhagfyr - 10.00y.b.-12.00y.h.
Groto Siôn Corn.
Gwasanaeth Llythyr gan Siôn Corn hefyd ar gael.

Bydd mwy o fanylion
i'w gweld cyn bo hir ar ein gwefan a'r
cyfryngau cymdeithasol ond am fwy o
wybodaeth:
post@mentercaerdydd.cymru

Menter Caerdydd - Rhif Elusen: 1098806. Rhif Cwmni: 4576565
Menter Bro Morgannwg - Rhif Elusen: 1179555. Rhif Cwmni: 08867706

Cwmni'r Dysgwyr

"Hyfryd yw gweld ein dysgwyr yn dechrau barddoni."



Gwilym Dafydd

Amser Jôc gyda Huw James

Gweithiodd Wncl Jac tan y diwedd. Mewn gwirionedd roedd yn saith deg chwech oed pan gwmpodd wrth yrru ei dractor. Roedd lanto wedi ei gael yn ôl i'r tŷ a galw'r meddyg. Nid oedd Wncl Jac wedi dod ato'i hun a dywedodd y meddyg wrth Anti Megan am ddisgwyl y gwaethaf.

Felly y noson honno eisteddodd Anti Megan ac lanto wrth erchwyn y gwely yn aros am y diwedd. Ar ôl awr roedd hi'n ymddangos bod Jac yn troi ac yn gwneud synau fel petai'n ceisio dweud rhywbeth. Pwysodd Megan ymlaen yn bryderus.

'Ydw Jac, rydw i yma. Beth sy'n bod?'

Cafodd yr hen ddyndrafferth i gael ei eiriau allan.

'Ysgrifennwch hwn i lawr.'

Cydiodd Megan mewn beiro a darn o bapur.

'Ddydd Mawrth diwethaf es i i'r farchnad yn Llanbed. Gwerthais heffer i Tom Evans, Pant-y-Groes. Mae arno £803.10 i mi,' llwyddodd i ebychu ychydig cyn mynd nôl yn anymwybodol.

Roedd balchder yn gymysg â thristwch ar wyneb Megan wrth iddi edrych i gyfeiriad lanto a dywedodd,

'Rydych chi'n gweld – tan y diwedd - mae ei feddwl mor finio i â nodwydd.'

Aeth awr arall heibio cyn i Jac ddechrau mwmian eto. Ar unwaith roedd Megan yn barod gyda beiro a phapur.

Daeth llais Jac eto - prin yn glywadwy y tro hwn.

'Ddydd lau diwethaf es i i Fart Tregaron ...Gwilym Thomas ... dafad fach ... £248.'

Ysgrifennodd Megan i lawr yn gyflym, gan droi at ei mab wrth iddi offen.

'Hyd yn oed yn ei oriau olaf,' ochneiodd, 'mor graff ag erioed.'

Aeth awr arall heibio - mwy o gyffro - mwy o synau ond yn wahanol y tro hwn. Roedd Megan ac lanto o'r farn mai dyma oedd y diwedd yn sicr. Ond ddim yn hollol eto. Roedd un cyfarwyddyd olaf i ddod.

'Ddydd Sadwrn diwethaf... mynd i Aberteifi .. Idris Shoes ... prynu Wellingtons ...mae arna i chwe phunt iddo.'

Gadawodd Megan i'r beiro a'r papur ollwng i'w glin.

'Wel,' meddai mewn anobaith. 'Mae Jac yn dechrau ffwndro.'

Oedfa Naw Sŵmiaid Hapus

Eirian a fi sy'n gyfrifol am hwn. Y syniad yw bod siaradwyr Cymraeg newydd yn cael cyfle i ddarllen salm, emyn, adnodau o'r Beibl ac ati. Daeth saith i'r cyfarfod cyntaf ar fore Sul, 25 Hydref rhwng 9:00 a 9:40 o'r gloch. Hyfryd oedd gwrando ar Jan a Rachel

yn darllen salmau 8 a 150 a Peter yn darllen un o gerddi Eirian o'r enw 'Lliwio'r Tymhorau'. Roedd pawb wedi mwynhau a bwriadwn gyfarfod yn ystod y cyfnod clo clec ac efallai am gyfnod hirach. Os am ymuno yna eirianagwilym@gmail.com yw'r cyswllt.

Sgwrs Janet Tabor â Shân Cothi

Yn ddiweddar roeddwn i'n westai ar sioe *Bore Cothi*. Roedd Radio Cymru yn dathlu wythnos dysgwyr Cymru, a gofynnodd fy nhwtor a hoffwn i sgwrsio gyda Shân ar y radio.



Bob blwyddyn mae Radio Cymru yn treulio wythnos yn dathlu ac yn annog siaradwyr Cymraeg newydd. Mae'r rhaglenni'n cynnwys llawer o gyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan.

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg yn ffurfiol ers pedair blynedd ac mae fy hyder yn tyfu'n araf.

Y diwrnod blaenorol, roeddwn i wedi gwrando ar ei gwstai cyntaf, Stephen Bale. Mae Stephen yn gyn-ohebydd rygbi. Roedd Stephen yn hyderus ac roedd y sgwrs yn llifo.

Ar fore'r sioe roeddwn i'n teimlo'n nerfus. Cyn i ni ddechrau siarad gyda'n gilydd, derbyniodd Shân gwpl o negeseuon gan bobl dw i'n nabod a oedd yn anfon dymuniadau gorau ata i. Pan ddechreuon ni sgwrsio, setlais i lawr a mwynheuais i ein sgwrs. Gofynnodd Shân i mi am fy mhrofiad dysgu, teulu, gweithgareddau ac ati ac roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus iawn.

Ar ddiwedd y sgwrs roeddwn i'n falch iawn fy mod i wedi cymryd rhan a mwynheais y profiad yn fawr. Diolch yn fawr Radio Cymru!

Llongyfarchiadau Janet – gwneust ti yn wych iawn!

Erin Pyle o Drelái yn ysgrifennu limrig doniol ar ôl cael gwaith cartref diflas!

'Does dim ots am y gwaith cartref diflas! Fe sgrifenna i limrig yn lle!' Dyna beth ddywedodd Erin Pyle o Drelái

yn ddiweddar. Dyma Erin yn adrodd ei stori:

'Dw i'n dysgu Cymraeg ers tua pum mlynedd ar ôl i fi symud i Gaerdydd. Un o Ddyfnaint ydw i yn wreiddiol, gyda gwreiddiau yn Nyfnaint, Yr Alban, Iwerddon, Cernyw, a Chymru - dw i'n teimlo felly mod i'n Geltes, fel petai. Dw i'n chwilio am waith gydag elfen Gymraeg ond yn y cyfamser yn gweithio i fferyllfa.

Nes i sgwennu'r limrig ar ôl i 'nghalon i suddo am y syniad o "feddwl am bum gair yn gysylltiedig â dillad ac ysgrifennu pum brawddeg yn eu defnyddio nhw". Mae

tasgau gwaith cartref yn gallu bod mor ddiflas weithiau!'

A dyma limrig Erin:

Roedd hogyn nad oedd ganddo drowsus,
Roedd ei drôns bach o'n anweddu;
Roedd ei fola o'n fawr,
Aeth ei grys o i'r llawr,
Diolch byth bod y cotwm yn swmpus!

Da iawn Erin!



*'Cofia fy ngeiriau, fy
mhlentyn i:
Mae'r cyfan i ti,
Mae'r cyfan i ti ...'*

Cyfrol annwyl a theimladwy i blant sy'n ddathliad o fomentau gwerthfawr byd natur yw *Maer Cyfan i Ti* (Gwasg Atebol) gan Luned Aaron. Gan ddilyn y diwrnod ar ei hyd, a thrwy ddefnyddio'r synhwyrâu, cawn ein cyflwyno, ar fydr syml, i'r amrywiaeth o brofiadau sydd ar gael i ni eu mwynhau gyda'n gilydd.

Mae i'r tymhorau bresenoldeb amlwg drwy gydol y gyfrol, a cheir ymdeimlad o werthfawrogi harddwch byd natur ac ysgogiad i fod yn y foment. Elfennau cyfarwydd i blant sydd rhwng y cloriau – pethau fel arogl rhosod ar y llwyni, teimlo'r dail yn crensian dan draed a mwynhau cân adar mân y bore. Mae'r delweddau sensitif o fyd y môr a'r tir a'r awyr yn rhai hoffus a fydd at chwaeth plant ifanc a'u rhieni hefyd.

Cafodd y llyfr ei greu yn ystod y cyfnod clo yn gynt yn y flwyddyn. Meddai Luned: 'Mi ges i lawer o bleser yn creu'r gyfrol yma yn ystod y cyfnod clo. Fel llawer ohonom, roedden ni fel teulu wedi cael boddhad yn ailddarganfod yr ardd a mynd am droeon lleol, ac roedd sylwi gyda'r plant ar rai o fanylion rhyfeddol byd natur yn rhan ganolog o'r broses greu wrth imi lunio'r delweddau – o hel mwyar duon gyda'n gilydd a gwerthfawrogi gwead unigryw deilen hyd sylwi ar broses fetamorffig buwch goch gota. Heb os, mae wedi bod yn braf gallu gweithio ar brosiect gobeithiol a chadarnhaol yn ystod y cyfnod heriol yma.'

Yn enedigol o Fangor, daeth Luned i'r brifddinas dros ddeng mlynedd yn ôl bellach, gan astudio am radd Meistr mewn dylunio yn y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama. Erbyn hyn mae wedi ymgartrefu yn yr Eglwys Newydd gyda'i gwŷr Huw a'u merched, Eos ac Olwen. Y llynedd, sefydlodd Luned a Huw wasg cyhoeddi llyfrau i blant a phobl ifanc, Llyfrau Broga Books (www.broga.cymru). Enillodd cyfrol gyntaf Luned, 'ABC Byd Natur' (Gwasg Carreg Gwalch) wobwr Tir na n-Og 2017.

Maer Cyfan i Ti gan Luned Aaron (Gwasg Atebol)
Pris: £6.99



Glywi di gôr yr holl adar mân
Drwy'r dail uwch dy ben yn canu eu cân?

Cofia fy ngeiriau, fy mhlentyn i:
Mae'r cyfan i ti,
Mae'r cyfan i ti.

O Landaf i Lŷn ... ac yn ôl i Gaerdydd

Edward James, ?1570-?1610 a Llyfr yr Homiliau

Y chydig wedi marw fy nhad yng nghyfraith ym mis Mawrth 1982, rhoddodd fy mam yng nghyfraith lyfr yn fy llaw. 'Chi fydd â'r diddordeb mwyaf yn hwn,' meddai. Roedd yn amlwg yn eithriadol o hen, ac yn bur fregus. Roedd Guto, fy ngŵr, yn cofio ei weld yn blentyn, yn atig Glanrhyd, fferm y teulu yn Edern, Llŷn, yr hynaf o lawer o nifer o hen lyfrau. Agorais y clawr lledr yn ofalus, a darllen yr wyneb-ddalen - *Pregethau a osodwyd allan trwy awdurdod i'w darllein ymhob Eglwys blwyf a phob capel er adailadaeth i'r bobl annyscedig. Gwedi eu troi i'r iaith Gymeraeg drwy waith Edward James. A'r dyddiad - 1606!*

Canodd y clychau - wel ie, 1982 oedd hi; doedd dim ond rhyw ddeuddeg mlynedd ers imi adael coridorau dysg Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Hwn oedd *Llyfr yr Homiliau*, cyfieithiad Edward James o nifer o'r *homilies* neu bregethau a baratowyd yn ystod yr 16g gan Archesgob Thomas Cranmer ac eraill i'w gosod ym mhulpudau eglwysi yn nyddiau cynnar Protestaniaeth, fel ffordd i addysgu'r werin anllthrennog am egwyddorion y ffydd newydd yn eu hiaith eu hunain. Roeddwn wedi clywed cyfeirio ato yn narlihoedd yr adran Gymraeg ac wedi darllen amdano yn *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* Thomas Parry. Ynghyd â Beibl William Morgan a Llyfr Gweddî Gyffredin William Salesbury, roedd y llyfr hwn yn un o arfau pwysicaf yr Eglwys Brotestannaidd newydd yng Nghymru a Lloegr. Ac roedd y cyfieithiad Cymraeg hwn yn un o'r llyfrau printiedig cynharaf i'w cyhoeddi yn Gymraeg. Yno yn fy nwylo yn ein cartref yn Llantrisant!

Beth ddylwn ei wneud ag ef? A sut y daeth o Lundain lle'r argraffwyd ef i gartref fy ngŵr yn Llŷn? Y peth cyntaf i'w wneud, yn amlwg, oedd cysylltu â'r Llyfrgell Genedlaethol i roi gwybod am ei fodolaeth. Y Llyfrgellydd ar y pryd oedd R. Geraint Gruffydd. Gwyddwn y byddai ganddo ddiddordeb, am resymau amlwg, ond hefyd gan fod ganddo gysylltiad teuluol agos â phentref Edern. Buan y daeth ateb gan yr ysgolhaig hynaws, yn mynegi diddordeb mawr, ac yn nodi mai 'wyth copi i gyd' oedd yn hysbys i'r Llyfrgell, yn ôl ei gydweithiwr, Miss Eiluned Rees, Ceidwad Cynorthwyol yn Adran y Llyfrau Printiedig. Gyda'i lythyr roedd wedi cynnwys copi o ran helaeth o bennod o'i draethawd DPhil (Rhydychen), 1952-3 - yn ymwneud ag Edward James a *Llyfr yr Homiliau*.

Cyn hir roedd wedi galw heibio i weld y llyfr, ac wedi gofyn a gâi ei fenthyg i'w astudio am gyfnod. Rhyw dri mis yn ddiweddarach, roedd yn ei ôl, ac yn dweud bod y nodiadau y tu mewn i'r clawr cefn yn dangos i'n copi ni fod ym meddiant ficeriaid yn Nannerch, sir y Fflint,

gan gynnwys Robert Lloyd a Thomas Wynne, yn yr ail ganrif ar bymtheg.

Pwy oedd Edward James, a sut y cafodd ef y gwaith o gyfieithu'r Homiliau? Yn ôl Dr Gruffydd, cafodd ei eni ym Morgannwg i deulu gwerinol - petai'n uchelwr, mae'n debyg y gwyddem ragor amdano. Gwyddom iddo fynd i Rydychen ym 1585/6 yn 16 oed ac yn ôl Glanmor Williams ('Edward James a Llyfr yr Homiliau', *Morgannwg*, Cyf. 25 (1981)) ymaelododd yn St Edmund's Hall ar 11 Mawrth 1586. Yn 1589 fe'i derbyniwyd i radd B.A. o Goleg Iesu, ac ym 1592 i radd M.A.



Ym 1589 hefyd y daeth John Davies, Mallwyd yn fyfyrwr i Goleg Iesu. Bydd darllenwyr llengar Y *Dinesydd* yn gyfarwydd â'r gŵr hwn ar ôl darllen *Sgythia*, nofel afaelgar Gwynn ap Gwilym. Mae R. Geraint Gruffydd yn awgrymu y gallai Edward James fod wedi bod yn diwtor arno, ac y gallai yntau, â'i gysylltiadau â William Morgan, fod wedi cyflwyno James i astudio'r Gymraeg, a pheri hefyd bod Morgan yn ymwybodol ohono pan ddaeth yn Esgob Llandaf ganol 1595.

Ddiwedd 1595 neu ddechrau 1596 gadawodd Edward James Goleg Iesu ac ar 2 Chwefror 1595/6 fe'i sefydlwyd yn Ficer Caerllion a Llangadog yn sir Fynwy. Dilynodd sawl swydd eglwysig cyn ei wneud yn

Ganghellor Eglwys Gadeiriol Llandaf ar 9 Medi 1606. Yn y flwyddyn honno y cyhoeddwyd *Llyfr yr Homiliau*, ond yn ôl Dr Gruffydd, 'James may have been working on his translation for some years before it was published'. Does fawr o amheuaeth na fu William Morgan, Archesgob Llandaf nes iddo symud i Lanelwy yn 1601, yn ddylanwad cryf arno.

Byddai'n dda iawn cael gwybod mwy am Edward James. O ble ym Morgannwg y deuai? Sut y cafodd y bachgen 16 oed o gefndir gwerinol fynd i Rydychen? Faint o gefndir oedd ganddo mewn llenyddiaeth Gymraeg? Yn sicr roedd ei Gymraeg ysgrifenedig yn loyw a denodd ei waith edmygedd sawl ysgolhaig dros y blynyddoedd. Dywed Dr Gruffydd fod y cyfieithu'n ofalus ac yn lled agos i'r gwreiddiol ond mae'n nodi sawl enghraifft o addasu i angen cynulleidfau Gymraeg, e.e. ychwanegu cyfeiriadau at Fair o Ben-rhys a Mair o Fargam. Fel cyn-gyfieithydd fy hun, mae'n fy nharo o ddarllen sylwadau manwl Dr Gruffydd fod James yn amlygu rhinweddau y byddai cyfieithydd proffesiynol heddiw yn falch ohonynt! Mae'r frawddeg hon yn dweud y cwbl - 'But it is not as a translation but rather as a body of Welsh, that his work has achieved fame.' Mae Dr Gruffydd hefyd yn dyfynnu Emrys ap Iwan a oedd â meddwl uchel o waith James - 'y mae ei Gymraeg ef yn fwy Cymreigaidd ac yn fwy cywir na Chymraeg y Beibl'. Ac yng ngeiriau Dr Gruffydd ei hun, 'Very rarely is he dominated by the wording or syntax of the original'.

Does dim lle i gynnwys dyfyniad hir i ddangos pa mor ddealladwy a chliir yw'r gwaith hyd yn oed heddiw,

ond mae'n bwysig nodi, yn enwedig i ddarllenwyr *Y Dinesydd*, bod arlliw o Gymraeg Morgannwg ar yr iaith, er mai Cymraeg glasurol Morgan a Salesbury a ddilynodd James ar y cyfan. Gallwch weld ambell i ferfenw â blas y Wenhwyseg arno yn y darn byr yma o'r bregeth am Seguryd (rwyf wedi diweddarau'r orgraff):

'Yn wir, gorau amser ag y dichon diawl ei gael i weithio ei ddichellion yw pan fyddo dynion yn cysgu, hynny yw, pan fônt hwy yn segur. Yno y mae fe'n trafaelu'n galed ar ei waith, yno y dala ef ddyinion gyntaf yn ei fagl distryw, yno y llanw ef hwy â phob anwiredd ...'

Soniais mai dim ond wyth copi o'r llyfr a oedd yn hysbys yn y 1980au. Erbyn hyn, yn ôl Timothy Cutts, Llyfrgellydd Llyfrau Prin y Llyfrgell Genedlaethol, mae 16 copi yng nghasgliadau'r Llyfrgell ac mae copïau hefyd yng Nghaerdydd (Llyfrgell Prifysgol Caerdydd), Abertawe, Llundain, Rhydychen a Manceinion.

Byddai'n ddiddorol gwybod sawl copi arall sydd mewn dwylo preifat.

Mae dirgelwch yn parhau ynglŷn â'n copi arbennig ni o'r llyfr. Sut yr aeth o sir y Fflint i Lŷn? Mae gan Guto ei ddamcaniaethau. Roedd ganddo hen hen daid, y Parchedig Gruffydd Hughes (1804 – 1884), a oedd yn weinidog yn Edern yn ogystal â bod yn ffarmwr, ac efallai fod y copi wedi dod i'w feddiant o. Ond roedd hen daid iddo, John Evan Roberts (1842 - 1918), yn siopwr llwyddiannus ym Mangor, a byddai ef wedi bod â'r modd a'r diddordeb i gasglu llawer o lyfrau. Ar ôl ei ddyddiau ef daeth pethau o'i eiddo o Fangor i Glanrhyd ac mae'n ddigon posibl bod y llyfr hwn yn eu plith.

Y gwir yw na chawn fyth wybod bellach beth oedd union hynt a helynt y copi hwn – ond mae'n glo eitha melys ar yr hanes hyd yma ei fod bellach yma yng nghyffiniau Caerdydd.

Glenys M Roberts

Gwyllo'r Geiniog

Huw Aled Accountants



1. Mae Cyllideb yr Hydref wedi'i chanslo gan y Canghellor oherwydd yr ansicrwydd a achosir gan Covid-19. Yn lle hynny, cyhoeddwyd mesurau cymorth ariannol pellach, gan gynnwys y Cynllun Cymorth Swyddi ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio o leiaf 20% o'u horiau arferol, yn ogystal â chadarnhad y bydd trydydd a phedwerydd grant ar gyfer yr hunangyflogedig ar gael dros y misoedd nesaf.

Bydd hefyd modd gohirio taliadau treth incwm hunanasesiad o hyd at £30,000 sy'n ddyledus erbyn 31 Ionawr 2021 trwy wneud cais i ddefnyddio cynllun 'Amser Ychwanegol i Dalu' y Swyddfa Dreth, ond codir llog o 2.6% ar y symiau sy'n ddyledus.

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu bod yn ailagor eu Cronfa Cadernid Economaidd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 26 Hydref 2020. Mae'r gronfa hon yn cynnig grantiau o hyd at £10,000 ar gyfer busnesau micro, hyd at £150,000 ar gyfer busnesau bach a chanolig a hyd at £200,000 ar gyfer busnesau mawr. Mae gwiriwr cymhwysedd eisoes wedi'i lansio a gellir dod o hyd i'r manylion llawn yma:

<https://fundchecker.businesswales.gov.wales/erfphase3/cy>

Yn ogystal, yn dilyn y cyhoeddiad gan Mark Drakeford am y cyfnod clo cenedlaethol o nos Wener 23 Hydref, mae rhagor o ffynonellau cymorth ariannol ar gael. Ewch i wefan **Busnes Cymru** am fwy o fanylion.

3. Nid yw nifer o fanciau ap ar-lein, fel *Tide* a *Coconut*, yn dod o dan y Cynllun lawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS) sy'n amddiffyn blaendaliadau o hyd at £85,000 fesul sefydliad ariannol. Os oes gennych gynilion sylweddol gyda'r banciau ap ar-lein hyn, ystyriwch rannu'ch cynilion ar draws sawl banc sy'n cynnig amddiffyniad FSCS.

Cwestiynau Huw ac Aled: Dw i'n wreiddiol o Sbaen a dw i wedi bod yn byw ac yn gweithio yn y DU ers 5 mlynedd ac yn berchen ar dŷ rhent yn Sbaen. Byddaf yn symud yn barhaol i Ffrainc i weithio fis nesaf. A fyddaf yn talu treth y Deyrnas Unedig (DU) ar fy incwm yn Sbaen?


Pan symudwch i mewn neu allan o'r DU, mae posibilrwydd y bydd eich blwyddyn dreth yn derbyn 'triniaeth blwyddyn hollt'. Er eich bod yn ddinesydd tramor, am y cyfnod yr ydych yn preswyllo yn y DU, fel rheol mae incwm ledled y byd yn ddarostyngedig i'r DU, llai unrhyw dreth a dalwyd tramor. Os byddwch yn gadael y DU hanner ffordd trwy flwyddyn dreth, bydd eich treth yn y DU yn seiliedig ar incwm a dderbynnir yn y DU hyd at y dyddiad gadael ynghyd ag incwm tramor a enillwyd hyd at ddyddiad gadael y DU.

Gall sefyllfaoedd fel hyn fynd yn gymhleth yn gyflym iawn, felly cysylltwch â ni os oes gennych chi neu'ch teulu unrhyw ymholiadau yn ymwneud ag incwm tramor.

Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda ni trwy:

www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.

Rhif: 208




Ar Draws

1. Cyffesu wnaf mewn oedfa ddefosiynol (4)
8. Un a'i fryd ar bethau daearol am letya morwr (1,9)
9. Ble ar y maes mae Charlo? (3,1,4)
10. Peth bach yw baich trwm ar yn ail (4)
12. A yw Roald yn swnio fel un o'r rhai heb gydnabyddiaeth? (1,2-3)
14. Tre'r epil gwelw (6)
15. Cael anaf gwael yn dilyn peth glaw ar y cei (6)
17. Dyfroedd a fo'n y ddinas (6)
18. Gwasgu'r diofal i dalu'n ôl (4)
19. '----- wy'n ei cheisio
A'i cheisio eto wnaf' (TW) (8)
21. 'Ymhlith a fu, neu yntau ddaw
'Does -----' (WW) (5,3,2)
22. Tref ogleddol heb ginio Nadolig ond am rywbeth llysieuol o'r mynydd (4)

I Lawr

2. 'Er nad yw 'nghnawd ond gwellt
A'm hesgryn -----' (WJ) (3,3,4)
3. Lan yw'r unig ffordd yng Nghilfynydd (4)
4. Dal pum deg ar ôl gaeaf cythryblus (6)
5. Y lle gore' i gadw'n ffres (6)
6. Os yw bro gwael yn dechrau codi mae'n fwy o werth (8)
7. Fan acw mae'r atyniad yn Lloegr (4)
11. 'Cerdd hen afon -----
Yn murmur rhwng yr eithin pêr' (AEJ) (10)
13. 'Am wanwyn Duw dros anial gwyw
----- deffro'n llef' (JJ) (8)
16. Mae'n boen mawr cael anifail gwyllt yn amgylchu cartrefi (6)
17. Llwon dua Non efallai (6)
18. Dial dwl ar yn ail yw ymryson (4)
20. Cael rhywbeth cadarn ar ddechrau amser trafod effeithiau'r glaw (4)



Enillydd Croesair Rhif 206 Delwyn Tibbott, Llandaf, Caerdydd

Atebion Croesair Rhif 206

Ar Draws: 7. Ifori 8. Aneirif 9. Aneglur 10. Y Bala
12. Canmoladwy 15. Dioddefaint 18. Dynol
19. Llawenydd 21. Dyladwy 22. Onid e
I Lawr: 1. Digalondid 2. Lodes 3. Dial 4. Patrwm
5. Beryglon 6. Ariandy 11. Ar y ffriddoedd
13. Adeiladu 14. Corneli 16. Arllwys 17. Enaid
20. Wrol

Danfônwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Rhagfyr, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

AGOR Y LLYFR

Yn rhifyn mis Mawrth cofnodwyd 'Byddwn yn dychwelyd i Lan Morfa ar fore Llun, 16 Mawrth, ac yn cynnal ymarfer yn festri'r Crwys ar fore Iau, 12 Mawrth...' Cynhaliwyd yr ymarfer ond aethon ni ddim i Ysgol Glan Morfa. Fe gofiwch fel y dechreuwyd canslo popeth o ganol mis Mawrth ymlaen.

Wedi misoedd tawel roedd actorion *Agor y Llyfr* yn ymarfer yr un stori, sef 'Ffrindiau Arbennig Iesu', ar fore Mawrth, 15 Medi - ar Zoom, afraid dweud. Yna recordiwyd y cyfan ar fore Llun, 28 Medi a bellach mae e ar gael i bawb ar YouTube, diolch i waith golygu Adam Coleman, un o'r un ar ddeg actor sy'n rhan o'r tîm erbyn hyn.

Dyma enghraifft o un ymateb gwerthfawrogol i'n hymdrechion: Daeth Steffan (Blwyddyn 1) allan o'r

ysgol (Y Wern) yn dweud ei fod wedi bod yn edrych ar Nain ar y teledu. Roedden nhw wedi cael gweld y cyflwyniad Zoom am Ffrindiau Arbennig. 'Oedd o'n dda? Wnest ti fwynhau?' oedd y cwestiwn nesa. 'Do, oedd o'n dda.' oedd yr ymateb! Roedd Mrs Harewood yr athrawes yn canmol hefyd. A phwy yw Nain ond y Parchg Catrin Roberts!

Diolchgarwch yw un o themâu traddodiadol mis Hydref ac ar fore Mawrth, 20 Hydref, roedd y tîm yn ôl yn ymarfer stori newydd ar Zoom gyda'r bwriad o recordio wythnos yn ddiweddarach. Stori Naomi, Ruth a Boas sef 'Wedi'i Selio â Sandal!' Tybed a fydd hwn yn plesio hefyd? Mae'n siwr y bydd Adam yn ei osod ar YouTube yn gynnwys ym mis Tachwedd.

Athrawon a disgyblion yr ysgolion cynradd – gobeithio eich bod wedi darllen y gair hwn!

Gwilym Dafydd

Ryseitiau Merch y Ddinas

cordial egroes

Lowri Haf Cooke



C hwi ddarllenwyr ffyddlon y golofn hon, fe gofiwch ôl-nodyn fy llith ym mis Hydref. 'Ewch ati nawr i bigo egroes – sef ffrwythau'r rhosyn gwyllt – a'u rhewi os oes rhaid, ar gyfer rysait rhifyn mis Tachwedd o'r Dinesydd!' Dwylo lan, os gwelwch yn dda, pw y ddilynodd y cyfarwyddyd hwn, gan Monty Don Nigelaidd Y Dinesydd?! Chwarae teg i'r disgyblion da - byddwch ar eich ennill am fod mor drefnus. Ac i'r gornel â chi, ddarllenwyr-tywydd-teg, i ystyried eich cosb o gant o linellau!

Tynnu'ch coes wrth gwrs; caiff pawb loddesta ar eiriau'r golofn, yn y gobaith y cewch eich ysbrydoli. Bonws hefyd: mae ffrwythau'r rhosyn gwyllt yn dal i'w gweld ar hyn o bryd, felly ewch ati i chwilota amdanynt! Wir i chi, yn y cyfnod rhyfedd hwn, mae casglu cynhwysion yn eu tymor yn falm i'r enaid. Ac wrth i'r papur fynd 'i'r wasg', gwelais i berth oedd yn gyforiog ohonynt nid nepell o 'nghartref yn y Rhath. Ond fel y soniais fis dwetha, toc cyn cyfnod clo mis Medi, es i am dro o Benarth i Larnog ym Mro Morgannwg. Ar hyd y llwybr arfordirol pigais egroes neu 'fochau cochion'. Dyma ffrwythau'r rhosyn gwyllt (dwi'n hoffi'r gair 'egroes' fy hun, sy'n fy atgoffa o fwyty hyfryd Plas Bodegroes ym Mhen Llŷn) – ac fe es ati i'w rhewi'n syth, cyn eu dadmer i greu surop tymhorol.

Fel y gŵyr rhai ohonoch, mae egroes yn orlawn o fitaminau, ac wedi'u defnyddio ers canrifoedd i leddfu poen crucymalau, a nifer o anhwylderau eraill. Ro'n i eisoes wedi blasu cordial egroes ffres ar ymweliad ag un o fy hoff 'gaffis' yng Nghymru, sef gardd gegin Tŷ Mawr yn Llangasty Tal-y-Llyn, nid nepell o Aberhonddu. Es i â photelaid o'r neithdar adref â mi, a llwyddais i ail-greu melynster mwyn yr hyfrydbeth hydrefol. Perffaiht gyda dŵr soda a rhew... neu wrth gwrs gyda joch o jin.

Cordial Egroes

500g Egroes
1.75 ltr o Ddŵr
175g Siwgr

Gosodwch 500g o egroes mewn sosban, yna ychwanegwch 1 ltr o ddŵr berwedig. Dewch â'r gymysgedd i'r berw, yna diffoddwch y gwres; gadewch y gymysgedd i stwytho ac oeri am 15 munud. Yna gosodwch ridyll ar ben powlen (maint canolig), yna liain neu ddarn



o fwslin yn y rhidyll, cyn rhidyllu'r gymysgedd. Y rheswm am hyn yw i ddal cymaint o hadau bychain a blewiach bach annifyr â phosib. Gosodwch y 'sudd' egroes lliw oren goch o'r neilltu.

Yna, dychwelwch y cnawd / hadau egroes at y sosban, ac ailgychwyn y broses, ond ychwanegwch 750ml o ddŵr berw at y gymysgedd y tro hwn. Dewch â'r gymysgedd i'r berw, cyn diffodd y gwres, a gadael i'r hylif stwytho ac oeri am chwarter awr. Yna rhidyllwch y gymysgedd dros y bowlen llawn sudd, trwy fwslin a rhidyll unwaith eto.

Wedi hynny, gwaredwch y cnawd a hadau egroes yn y bin bwyd, ond tywalltwch yr hylif egroes i sosban, a dewch â'r gymysgedd i'r berw. Gyda llwy, casglwch a gwaredwch unrhyw lysnafedd neu ewyn o arwyneb yr hylif, yna ychwanegwch 175g o siwgr i'r sosban, a throellwch y gymysgedd tan bydd y siwgr wedi toddi. Yna diffoddwch y gwres a gadewch i'r hylif oeri.

Rhidyllwch yr hylif un waith eto, cyn tywallt y cordial melys i botel lân trwy dwmffat neu dwndis. Cewch gadw'r cordial yn yr oergell am rai misoedd – digon i'ch cynnal ar hyd misoedd y gaeaf. Yfwrch â dŵr pefriog, neu ddŵr poeth a mêl pan fo annwyd; bydd gennych fochau cochion eto, ar ôl swatio!



Dathlu Traddodiadau Cymreig Calan Gaeaf

Fel rhan o ddatliadau Calan Gaeaf eleni aeth Mentrau Iaith Cymru ati i dynnu sylw at ffigwr blaenllaw o chwedloniaeth Geltaidd ar gyfer Dydd y Meirw - Gwyn ap Nudd.

I ddatlu, trefnwyd cystadleuaeth genedlaethol i blant a phobl ifanc i greu ac addurno penglog Gwyn ap Nudd, Brenin Annwfn, erbyn hanner nos ar Galan Gaeaf, 31 Hydref.

Diolch i gydweithrediad Hunaniaith (Menter Iaith Gwynedd), cyhoeddwyd cyfres o fideos yn adrodd stori Gwyn ap Nudd a thraddodiadau Calan Gaeaf Cymreig, wedi eu cyflwyno gan y storïwr Gwilym Morus-Baird, ar y cyfryngau cymdeithasol. Bwriad y fideos yw codi ymwybyddiaeth o'r chwedloniaeth Gymreig a Cheltaidd sy'n gysylltiedig â noson Calan Gaeaf.

Dywedodd Bet Huws, Swyddog Hunaniaith: 'Gyda chyfyngiadau Covid-19 eleni yn effeithio ar y gweithgareddau Eingl-Americanaidd Calan Gaeaf arferol, dyma gyfle gwych i gyflwyno Gwyn ap Nudd i blant a phobl ifanc Cymru.'



Wedi eu hysbrydoli gan hanes Gwyn ap Nudd bu modd i blant a phobl ifanc lawrlwytho templed i greu penglog papur o wefan Mentrau Iaith Cymru, ei addurno a'i ddanfon at eu Menter Iaith leol. Bydd y penglogau buddugol yn y categorïau cynradd ac uwchradd yna'n mynd ymlaen i'r rownd genedlaethol a fydd yn cael ei beirniadu gan ddwy o awduresau blaenllaw Cymru, Angharad Tomos a Bethan Gwanas.

Roedd y cynllun a'r gystadleuaeth yn ffrwyth cydweithrediad yr holl Fentrau Iaith lleol a Mentrau Iaith Cymru, ac yn benodol Hunaniaith a Menter Iaith Sir Ddinbych a gydweithiodd i gynhyrchu'r adnoddau.

S4C yn lansio tair sianel newydd i bobl ifanc ar YouTube

Mewn cynllun cyffrous mae S4C newydd lansio tair sianel YouTube wedi eu hanelu at gynulleidfa 11-13 oed. Mae naw person ifanc wedi eu dewis fel Crewyr Cynnwys a bydd y naw yn ffilmio a chynhyrchu fideos i'w huwchlwytho ar YouTube, gyda chymorth cynhyrchu gan Boom Cymru.

Mae S4C yn sefydlu'r tair sianel yma â thalent newydd fel ffordd o ymateb i'r newidiadau ym mhatrymau gwyllo'r gynulleidfa iau. Meddai Rhodri ap Dyfrig, Comisiynydd Cynnwys Arlein S4C:

'Mae'n hollol glir bod angen i S4C a chynnwys Cymraeg fodoli ar draws llwyfannau gwahanol ac ar gyfer diddordebau gwahanol er mwyn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol. Ni all un sianel deledu wneud y gwaith yma i gyd rhagor, felly mae gweld tair sianel newydd o gynnwys Cymraeg ar gyfer pobl ifanc yn ddatblygiad pwysig.'

Y tair sianel yw:

POPT - yn trafod cerddoriaeth, y *trends* diweddaraf a diwylliant poblogaidd

Gemau Gamma - sianel gemau; a

Label Deg - yn trafod steil, harddwch, lles a meddylgarwch.

Ychwanegodd Rhodri: 'Mae wedi bod mor gyffrous gweld y Crewyr Cynnwys yn mynd ati i ddechrau adeiladu eu sianeli dros yr wythnosau diwethaf, a dw i wir yn edrych ymlaen i weld y creadigrwydd yn ffynnu ar *Label Deg*, *Gemau Gamma* a *POPT*.'

